

# Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Powys (2022-2037)

# Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

## Tachwedd 2022

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg

# CYNNWYS

## Penodau:

1. CYFLWYNIAD ... 4

2. EGWYDDORION ALLWEDDOL - YR ALWAD AM SAFLEOEDD YMGEISIOL ... 7

2.1 CYNIGWYR SAFLEOEDD A DEFNYDDIAU TIR ... 7
2.2 CYNALIADWYEDD, HYFYWEDD A CHYFLAWNADWYEDD ... 7
2.3 STRATEGAETH Y CDLL NEWYDD A HIERARCHAETH ANEDDIADAU ... 9
2.4 DYRANIADAU PRESENNOL Y CDLL ... 9
2.5 ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG (ISA) / ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (HRA) ... 9

3. PROSES ASESU SAFLEOEDD YMGEISIOL ... 10

4. CAM CYCHWYNNOL HIDLO SAFLEOEDD ... 11

4.1 HIDLO SAFLEOEDD CYCHWYNNOL ... 11
4.2 YSTYRIAETHAU HIDLO SAFLEOEDD CYCHWYNNOL: ... 11
Trothwy Safleoedd ... 11
Perthynas â'r Anheddiad Presennol ... 11
Perygl llifogydd ... 12
Asesiad o Hyfywedd ... 12
Materion Cyflawnadwyedd ... 13
Ystyriaethau Polisi ... 13

5. COFRESTR SAFLEOEDD YMGEISIOL / CAMAU YMGYNGHORI'R STRATEGAETH A FFEFRIR ... 14

5.1 COFRESTR SAFLEOEDD YMGEISIOL ... 14

5.2 YMGYNGHORIAD STRATEGAETH A FFEFRIR ... 14
5.3 SYLWADAU'R YMGYNGOREION ... 14

6. ASESIAD MANWL O'R SAFLEOEDD / CAM ASESU ISA ... 15

6.1 ASESIAD MANWL O'R SAFLEOEDD ... 15
6.2 MEINI PRAWF ASESIAD MANWL O SAFLEOEDD ... 17
Lleoliad a Hygyrchedd ... 17
Cymeriad a Chyd-destun y Safleoedd ... 19
Hygyrchedd a Chapasiti Priffyrdd ... 22
Tirwedd ac Effaith Amgylcheddol ... 25
Perygl llifogydd ... 28
Ardaloedd Diogelu/Clustogfeydd Mwynau ... 31
Seilwaith / Capasiti Cyfleustodau ... 32
Cyflawni a Hyfywedd ... 33
Newid Hinsawdd, Gwneud Lleoedd a Gwella Bioamrywiaeth ... 37

7. CYNLLUN ADNAU – CAM OLAF DEWIS SAFLEOEDD ... 39

8. ARCHWILIO – CAM MABWYSIADU ... 40

ATODIAD 1 – FFRAMWAITH ARFAETHEDIG AR GYFER GWERTHUSO SAFLEOEDD ACI.............41
RHAGARWEINIAD....................................................................................................41
FFRAMWAITH ARFAETHEDIG AR GYFER GWERTHUSO SAFLEOEDD ACI....................................43
ACI Amcan 1 - Darparu cartrefi a seilwaith cymunedol o ansawdd da i fodloni anghenion a nodwyd ....................................................................................................43
ACI Amcan 2 – Creu a chefnogi economi a gweithlu cadarn, amrywiol a gwydn ...........44
ACI Amcan 3 – Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; trechu allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol ....................................................................45
ACI Amcan 4 – Diogelu, hyrwyddo a chyfoethogi'r Gymraeg a diwylliant Cymreig Cwestiynau'r Gwerthusiad ..........................................................................46
ACI Amcan 5 – Gwella iechyd a llesiant pob sector o gymdeithas.................................47
ACI Amcan 6 – Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau presennol a diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. ..............................48
ACI Amcan 7 – Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr ................49
ACI Amcan 8 – Lleihau cymaint â phosibl neu leihau ffynonellau ac effaith llygredd aer50
ACI Amcan 9 – Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog ail-ddefnyddio ac ailgylchu, a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau mwynau ....................................................51
ACI Amcan 10 – Cefnogi gwydnwch Powys o ran effaith botensial newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithriadol eraill ......................................................52
ACI Amcan 11 - Lleihau'r cyfraniad at newid hinsawdd oherwydd allyriadau nwyon tŷ gwydr ....................................................................................................53
ACI Amcan 12 - Hyrwyddo defnydd o gludiant cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio ...54
ACI Amcan 13 – Gwarchod a chyfoethogi adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol........................................................................55
ACI Amcan 14 - Gwarchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hyrwyddo gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlddefnydd .........................................56
ACI Amcan 15 – Diogelu ansawdd ac amrywiaeth tirluniau a threfluniau dynodedig a lleol ....................................................................................................57

## Atodiadau:

**ATODIAD 1 – MEINI PRAWF ASESU SAFLEOEDD YMGEISIOL ISA**

## Tablau:

TABL 1. SYSTEM SGORIO ASESIAD MANWL O SAFLEOEDD ........................................................15
.................................................................................................................16
TABL 2. MAEN PRAWF 1: STRATEGAETH A FFEFRIR A HIERARCHAETH ANEDDIADAU - TAI...................... 16
.................................................................................................................17
TABL 3. MAEN PRAWF 2: STRATEGAETH A FFERIR A HIERARCHAETH ANEDDIADAU – CYFLOGAETH / MANWERTHU.....................................................................................................18
TABL 4. MAEN PRAWF 3: PERTHYNAS Â GWASANAETHAU CYMUNEDOL / CYFLEUSTERAU SYDD Â'R CAPASITI I GEFNOGI TWF. ......................................................................................18
TABL 5. MAEN PRAWF 4: TIR A DDATBLYGWYD O'R BLAEN / TIR GLAS*. ..........................................19

TABL 6. MAEN PRAWF 5: NODWEDDION TOPOGRAFFIG* NEU DDATBLYGIAD FFISEGOL + AR Y SAFLE A ALLAI RWYSTRO DATBLYGIAD. ....20
TABL 7. MAEN PRAWF 6: EFFAITH ANDWYOL AR AMWYNDER (SŴN, AROGL, LLYGREDD GOLAU NEU LWCH) SY'N DEILLIO O DDEFNYDDIAU TIR CYFAGOS A ALLAI FOD YN WRTHDRAWIADOL*....20
TABL 8. MAEN PRAWF 7: TIR HALOGEDIG....21
TABL 9. MAEN PRAWF 8: CYSYLLTIADAU TEITHIO LLESOL I GANOL ANEDDIADAU ....22
TABL 10. MAEN PRAWF 9: MYNEDIAD I'R ARDAL EHANGACH AR DROED....23
TABL 11. MAEN PRAWF 10: LLEOLIAD O FEWN PELLTER CERDDED (H.Y. 800 METR) O SAFLE BWS NEU ORSAF REILFFORDD BRESENNOL....23
TABL 12. MAEN PRAWF 11: ADDASRWYDD MYNEDIAD I GERBYDAU I MEWN AC ALLAN O'R SAFLE A'R EFFAITH AR Y BRIFFORDD. ....24
TABL 13. MAEN PRAWF 12: CAPASITI'R RHWYDWAITH PRIFFYRDD. ....24
TABL 14. MAEN PRAWF 13: EFFAITH AR SAFLEOEDD DYNODEDIG TREFTADAETH NATURIOL. ....25
TABL 15. MAEN PRAWF 14: EFFAITH AR RYWOGAETHAU GWARCHODEDIG. ....26
TABL 16. MAEN PRAWF 15: EFFAITH AR SAFLEOEDD DYNODEDIG YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (A'U LLEOLIADAU LLE BO HYNNY'N BRIODOL). ....26
TABL 17. MAEN PRAWF 16: EFFAITH AR DIRWEDD. ....27
TABL 18. MAEN PRAWF 17: EFFAITH AR DIR AMAETHYDDOL GORAU A MWYAF AMLBWRPAS (BMV). ....27
TABL 19. MAEN PRAWF 18: DATBLYGIAD HYNOD AGORED I NIWED* MEWN MAP LLIFOGYDD AR GYFER CYNLLUNIO (FMFP) PARTHAU AFONYDD A MÔR 2 A 3. ....29
TABL 20. MAEN PRAWF 19: DATBLYGIAD LLAI AGORED I NIWED YM MHARTHAU AFONYDD A MÔR 2 A 3* MAP LLIFOGYDD AR GYFER CYNLLUNIO (FMFP). ....29
TABL 21. MAEN PRAWF 20: DATBLYGIAD MEWN MAP LLIFOGYDD AR GYFER CYNLLUNIO (FMFP) LLIFOGYDD DŴR ARWYNEB. ....30
TABL 22. MAEN PRAWF 21: ARDALOEDD/CLUSTOGFEYDD DIOGELU MWYNAU ....31
TABL 23. MAEN PRAWF 22: CAPASITI SEILWAITH ....32
TABL 24. MAEN PRAWF 23: PERCHNOGAETH AC YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL – TIR CYHOEDDUS. ..33
TABL 25. MAEN PRAWF 24: PERCHNOGAETH AC YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL – TIRFEDDIANNAETH ....34
TABL 26. MAEN PRAWF 25: PERCHNOGAETH AC YSTYRIAETHAU CYFREITHIOL – BUDDIANNAU DATBLYGWYR. ....34
TABL 27. MAEN PRAWF 26: CYFLAWNADWYEDD - SAFLEOEDD A DDYRANNWYD PRESENNOL YN Y CDLL MABWYSIEDIG (2011-2026) ....34
TABL 28. MAEN PRAWF 27: ARGAELEDD SAFLEOEDD. ....35
TABL 29. MAEN PRAWF 28: HYFYWEDD. ....35
TABL 30. MAEN PRAWF 29: ARFARNU SAFLE*. ....35
TABL 31. MAEN PRAWF 30: NEWID HINSAWDD* ....37
TABL 32. MAEN PRAWF 31: CREU LLEOEDD CYNALIADWY* ....38

TABL 33. MAEN PRAWF 32: GWELLIANNAU BIOAMRYWIAETH ............................................................38

## Ffigurau:

FFIGUR 1. CAMAU'R BROSES ASESU SAFLEOEDD YMGEISIOL ................................................10

# 1. Cyflwyniad

1.1.1 Ar ôl cyhoeddi'r Cytundeb Cyflawni ym mis Gorffennaf 2022, yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r cam ffurfiol cyntaf ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Powys (CDLl Newydd) 2022-2037. Mae'r broses yn galluogi pawb sydd â buddiant i gyflwyno safleoedd posibl i'w cynnwys yn y cynllun i Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) Powys. Yna bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn asesu pob safle a phenderfynu a ydyn nhw'n addas, neu beidio, i'w cynnwys yn y CDLl Newydd.

1.1.2 Diben y ddogfen hon yw nodi'r broses a'r fethodoleg sydd i'w defnyddio ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd datblygu posibl (Safleoedd Ymgeisiol) i'w cynnwys o fewn CDLl Newydd Powys. Mae'r fethodoleg yn adlewyrchu darpariaethau deddfwriaethol o fewn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (2021) a Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)) ynghyd â'r gofynion a nodir yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi CDLlau fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3 Mawrth 2020).

1.1.3 Fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) mae cyflawnadwyedd safleoedd yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis safleoedd addas a bydd yn hanfodol wrth nodi safleoedd i'w cynnwys o fewn y CDLl Newydd. Felly, bydd y broses asesu'n cael ei defnyddio ar gyfer yr holl safleoedd a gyflwynir i'w hystyried yng ngham Galwad am Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynir ar safleoedd a ddyrannwyd sydd heb eu datblygu i CDLl Mabwysiedig Powys (2011 – 2026), ac unrhyw safleoedd eraill a ystyrir yn briodol trwy'r sail dystiolaeth. Bydd gwerthuso safleoedd yn tynnu ar ystod o wybodaeth a gedwir gan y Cyngor, tystiolaeth ategol gan gynigwyr safleoedd a phan fo'n berthnasol, bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda chyrff ymgynghori penodol i alluogi'r gwaith o ystyried safleoedd yn fanwl (gweler paragraff 5.3).

1.1.4 Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yw'r amser priodol i gynigwyr safle gyflwyno safleoedd ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn y CDLl Newydd. Bydd gan safleoedd a gynigir ar ôl y cam Strategaeth a Ffefrir lai o siawns o gael eu hystyried yn addas i'w cynnwys yn y cynllun.

1.1.5 Hefyd, dylai cynigwyr safleoedd fod yn ymwybodol y gall peidio â chyflwyno gwybodaeth digon manwl fel y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol olygu na chaiff y safle ei ystyried ymhellach.

1.1.6 Yn cyd-fynd â'r ddogfen hon mae 'Nodyn Cyfarwyddyd' a fydd yn cynorthwyo cynigwyr safleoedd i gwblhau'r 'Ffurflen Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol'. Bydd y Nodyn Cyfarwyddyd yn esbonio'r derminoleg yn y Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol yn fanylach a bydd yn cyfeirio cynigwyr safleoedd at le i ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol (yn enwedig o ran cyfyngiadau).

1.1.7 Ar 17 Rhagfyr 2020, anfonodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) lythyr i Bowys, gan dynnu sylw bod ardaloedd afonol dynodedig o Ardaloedd Cadwraeth Arbenig (ACA) yn (ACA) Afon Gwy yn methu â chyrraedd terfynau ffosfforws oedd wedi'u tynhau yn 2016 gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC). Dilynwyd hyn gan lythyr arall ar 20 Ionawr 2021 yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ar statws cyflwr y SACS afonol eraill yng Nghymru gan gynnwys yr Wysg, Dyfrdwy a Thywi, sef y dalgylchoedd sy'n effeithio ar ardal CDLl Powys. Cyhoeddwyd Cyngor Cynllunio Dros Dro gan Gyngor Naturiol Cymru ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn gofyn am ddatblygiad newydd o fewn dalgylchoedd SAC i sicrhau niwtraliaeth ffosffad neu wellhad. Mae gan hyn y potensial i gyfyngu ar ddatblygiadau i'r Safleoedd Ymgeisiol hynny yn unig sy'n gallu cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff sydd ag offer lleihau

ffosfforws wedi'i osod. Mae paragraffau 4.2.12 – 4.2.14 yn darparu gwybodaeth ar sut y bydd y cyfyngiad hwn yn cael ei ystyried yn y broses asesu Safleoedd Ymgeisiol.

1.1.8 Bydd Safleoedd Ymgeisiol yn chwarae rhan bwysig wrth lunio a gweithredu'r CDLl Newydd yn llwyddiannus, dyma'r brif ffordd o adnabod safleoedd i ddiwallu anghenion y Sir yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid cydnabod y bydd safleoedd eraill a ganiateir trwy bolisïau Cenedlaethol a CDLl hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r CDLl Newydd.

# 2. Egwyddorion Allweddol - Yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol

## 2.1 Cynigwyr Safleoedd a Defnyddiau Tir

2.1.1 Mae'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol yn caniatáu i bob parti (tirfeddianwyr, cynghorau cymuned, sefydliadau lleol ac ati) gyflwyno unrhyw safleoedd posibl i'w hystyried i'w cynnwys yn y CDLl Newydd. Yna bydd y rhain yn cael eu hasesu, a gwneir penderfyniad ynghylch a yw pob safle yn addas fel dyraniad yn y CDLl Newydd ar gyfer y defnydd arfaethedig, neu beidio.

2.1.2 Bydd Safleoedd Ymgeisiol yn chwarae rhan bwysig wrth lunio a gweithredu'r CDLl Newydd yn llwyddiannus, gan y bydd rhai ohonynt yn dod yn ddyraniadau sy'n sylfaenol i ddiwallu'r anghenion a nodir yn y Cynllun. Gwahoddir cyflwyno safleoedd ar gyfer tai, cyflogaeth, ac anghenion eraill, fel y nodir isod yn y rhestr o ddefnyddiau tir Safleoedd Ymgeisiol (nodwch nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, nac mewn trefn flaenoriaeth ac y bydd defnyddiau cymysg hefyd yn cael eu hystyried).

**Defnyddiau Tir Safleoedd Ymgeisiol:**

- Tai'r Farchnad Agored
- Tai Fforddiadwy
- Tai Arbenigol (gan gynnwys ar gyfer pobl hŷn a rhai ag anableddau)
- Cyflogaeth
- Cyfleusterau Cymunedol
- Twristiaeth
- Seilwaith Gwyrdd / Mannau Agored / Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)
- Gwastraff
- Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol
- Sipsiwn a Theithwyr
- Manwerthu
- Hamdden
- Ynni Adnewyddadwy
- Bioamrywiaeth
- Seilwaith Trafnidiaeth
- Mwynau

## 2.2 Cynaliadwyedd, Hyfywedd a Chyflawnadwyedd

2.2.1 Bydd Awdurdod Cynllunio Lleol Powys yn defnyddio'r broses Safleoedd Ymgeisiol i gasglu tystiolaeth addas oddi wrth gynigwyr safleoedd sy'n dangos yn gadarn cynaliadwyedd, cyflawnadwyedd a hyfywedd ariannol y safleoedd. Mae angen i gynigwyr gyflwyno tystiolaeth er mwyn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu'r canlynol:

- Bod y safle mewn lleoliad **cynaliadwy** (fel y'i diffinnir yn Rhifyn 11 o Bolisi Cynllunio Cymru) ac y gellir ei ryddhau o bob cyfyngiad.
- Y gellir **cyflawni** y safle.
- Bod y safle'n **hyfyw.**

2.2.2 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn awgrymu y dylai'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gynigwyr safleoedd i ddangos cyflawnadwyedd a hyfywedd ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy (yn unol â'r drefn chwilio safleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) a ddylai lywio methodoleg asesu safleoedd ymgeisiol yr Awdurdod Cynllunio Lleol).
- Mae'r safle ar gael yn awr neu bydd ar gael ar adeg briodol o fewn cyfnod y cynllun.
- Yn gyffredinol mae'r safle yn rhydd o gyfyngiadau ffisegol, megis perchnogaeth tir, seilwaith, mynediad, cyflwr y ddaear, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, problemau peryglon llifogydd a llygredd.
- Os yw'r safle yn eiddo cyhoeddus fe'i nodir mewn strategaeth waredu gyhoeddedig, neu drwy benderfyniad y Cyngor os bwriedir i'r tir gael ei gadw neu ei werthu gan y Cyngor.
- Beth yw'r hanes cynllunio - a yw'r safle yn elwa ar ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes, neu a yw'n cael ei nodi fel dyraniad yn y CDLl Mabwysiedig presennol?
- Lle bo'n briodol, esboniad a chyfiawnhad clir o sut a phryd y gellir goresgyn unrhyw rwystrau rhag cyflawni.
- Mae potensial datblygu ar gyfer y defnydd arfaethedig. Ar y cyfan, mae'r safle'n ddeniadol i'r farchnad (y sector preifat a/neu gyhoeddus) i'w ddatblygu yn y lleoliad arfaethedig.
- Gall y safle gynnwys y lefelau eang o dai fforddiadwy, gofynion polisi / Adran 106 eraill a chostau seilwaith a nodir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Lle mae diffygion ariannol yn rhwystro datblygiad rhag cael ei gyflwyno, mae mecanweithiau ariannu yn cael eu sicrhau, neu'n gallu cael eu sicrhau i wneud y safle'n hyfyw yn ariannol.

2.2.3 Er mwyn cynorthwyo cynigwyr safleoedd i ymdrin â'r pwyntiau a restrir, mae'r "Ffurflen Gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol" yn cynnwys cyfres o gwestiynau mewn cysylltiad â'r uchod, i ddarparu ar gyfer asesiad o'r safle a'i gyflawnadwyedd. Mae'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen gyflwyno wedi'u dewis i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i nodi safleoedd y bernir eu bod yn addas i'w hystyried ymhellach ac i annog ymgeiswyr i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol pan fo hynny'n briodol.

2.2.4 Mae'n ofynnol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Asesiad o Hyfywedd yn cael ei gynnwys wrth gyflwyno safleoedd (gweler paragraffau 4.2.9 a 6.2.23). Gall hefyd ofyn am wybodaeth ychwanegol megis arolygon ecolegol, asesiadau tirwedd, asesiadau o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau o effaith traffig, ac unrhyw dystiolaeth arall y gallai fod ei hangen i ddangos y gellir cyflawni'r safle. Mae cynigydd y safle yn gyfrifol am wneud unrhyw waith technegol (yn cynnwys costau ariannol) sydd ei angen i gefnogi cynnwys y safle yn y CDLl Newydd.

2.2.5 I gefnogi'r gwaith o baratoi cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi llunio map cyfyngiadau rhyngweithiol. Bydd hwn yn galluogi cynigwyr safleoedd i nodi'n rhwydd unrhyw bolisiau allweddol a chyfyngiadau safleoedd dynodedig. Hefyd, cynghorir gwerthusiad o'r safle gan gynigwyr safleoedd e.e. i ddeall y nodweddion cadwraeth naturiol, amgylcheddol a threftadaeth penodol, a chymeriad a gwerth amwynder gweledol y safle. Dylid defnyddio'r map cyfyngiadau a'r gwerthusiad safleoedd i benderfynu a fydd angen gwybodaeth ychwanegol fel rhan o'r broses asesu safleoedd ymgeiswyr yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

## 2.3 Strategaeth y CDLl Newydd a Hierarchaeth Aneddiadau

2.3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol flaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen yn y broses dewis safle. Mae hefyd yn cynghori y dylid rheoli adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill (manwerthu, cyflogaeth ac ati) yn y cefn gwlad agored, yn bell o aneddiadau sefydledig, yn llym. Mae safleoedd ymgeisiol a gynigir ar gyfer defnydd, megis tai, mewn lleoliadau ynysig yn bell o aneddiadau diffiniedig yn annhebygol o fod yn dderbyniol.

2.3.2 Dylai cynigwyr safleoedd ystyried sut mae'r Safleoedd Ymgeisiol, y maent yn eu cynnig, yn cyd-fynd â Strategaeth y CDLl (2011-2026) mabwysiedig a hierarchaeth aneddiadau yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, wrth i'r CDLl Newydd fynd yn ei flaen, rhagwelir y bydd diwygiadau i Strategaeth y CDLl a hierarchaeth aneddiadau a fydd yn cael effaith ar y broses o ddewis safle. Yn hyn o beth, bydd rôl a swyddogaeth yr anheddiad, ynghyd â'i safle o fewn yr hierarchaeth aneddiadau ac agosrwydd Safleoedd Ymgeisiol at ffiniau aneddiadau presennol hefyd yn rhan o'r ystyriaethau wrth benderfynu addasrwydd safleoedd. Wrth baratoi Strategaeth y CDLl Newydd, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn ystyried Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 (cyhoeddwyd 2021), yn enwedig lleoliad Ardaloedd Twf Rhanbarthol a dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol sensitif i ffosffad.

2.3.3 Dylai cynigwyr safleoedd hefyd ystyried Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Polisi 6) sy'n gofyn bod cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaeth cyhoeddus newydd a sylweddol yn cael eu lleoli yng nghanol trefi. Dylai safleoedd o'r fath fod â mynediad da ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus i'r dref gyfan a phan fo hynny'n briodol, y rhanbarth ehangach. Rhaid defnyddio dull dilyniannol o weithredu i lywio'r broses o nodi'r lleoliad gorau ar gyfer y datblygiadau hyn y byddai angen eu nodi yn y CDLl Newydd.

## 2.4 Dyraniadau Presennol y CDLl

2.4.1 Bydd angen i ddyraniadau safleoedd yn y CDLl Mabwysiedig presennol sydd heb ganiatâd cynllunio sy'n bodoli eisoes, gael eu hailwerthuso drwy broses asesu Safleoedd Ymgeisiol. O ganlyniad, mae'n **rhaid** i berchnogion / datblygwyr dyraniadau safleoedd presennol y CDLl wneud cyflwyniad Safleoedd Ymgeisiol i ddangos bod eu safle yn un y gellir ei gyflawni ac egluro pam nad yw caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau hyd yma. Yn absenoldeb tystiolaeth gyfoes bod safle sydd wedi'i ddyrannu eisoes ar gael ac y gellir ei gyflawni, mae'n annhebygol y bydd safleoedd o'r fath yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer eu hail-ddyrannu yn y CDLl Newydd sydd ar y ffordd.

## 2.5 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) / Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

2.5.1 Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ofyniad statudol i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) y CDLl Newydd. Bydd hwn yn cael ei ymgorffori fel rhan o Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA), a fydd hefyd yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Darperir rhagor o fanylion yn Adran 6 ynghylch sut a phryd y bydd Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu hasesu fel rhan o ISA, mae'r meini prawf i'w defnyddio yn Atodiad 1.


2.5.2 Bydd angen i'r Cyngor hefyd sicrhau na fydd y CDLl Newydd yn cael unrhyw effaith sylweddol (yn unig ac yn gyfunol) ar y Rhwydwaith Safle Cenedlaethol (Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd - HRA) wrth ei weithredu. Mae'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol wedi'i drafftio i ystyried canllawiau cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu mewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol i ddangos y byddent yn cyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant.

# 3. Proses Asesu Safleoedd Ymgeisiol

3.1.1 Mae'n hanfodol bod y tir sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer ei ddatblygu yn y CDLl Newydd yn bodloni amcanion y CDLl Newydd ac y gellir ei ddatblygu o fewn cyfnod y Cynllun. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnal Proses Asesu Safleoedd Ymgeisiol gynhwysfawr sy'n glir, gwrthrychol, a thryloyw wrth i Safleoedd Ymgeisiol symud ymlaen drwyddi.

3.1.2 Mae Ffigur 1 yn nodi gwahanol gamau'r Broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Mae'r adrannau canlynol yn y ddogfen hon yn manylu ar y camau unigol.

**Ffigur 1. Camau'r Broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol**



# 4. Cam Cychwynnol Hidlo Safleoedd

## 4.1 Hidlo Safleoedd Cychwynnol

4.1.1 Bydd safleoedd sy'n cael eu cynnig ar gyfer datblygu adeiledig (e.e. tai a chyflogaeth) i gyd yn destun asesiad hidlo cychwynnol safleoedd fel y'i disgrifir yn Adran 4.2. Os bydd safleoedd yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu diogelu, bydd y rhain yn destun asesiad ar wahân fel bo'n berthnasol, er enghraifft, drwy gael eu hystyried yn rhan o'r asesiad seilwaith gwyrdd.

4.1.2 Bydd yr hidlo safleoedd cychwynnol yn cynnwys asesiad lefel uchel a fydd yn nodi ac yn gwrthod safleoedd anaddas yn gynnar yn y broses. Tynnir safleoedd allan o'r broses os ystyrir nad ydynt yn addas fel dyraniadau yn y CDLl Newydd. Dylid nodi nad yw hyn o reidrwydd yn golygu na fyddai safleoedd yn cael caniatâd cynllunio o dan bolisïau CDLl Mabwysiedig neu Newydd pe bai cais yn cael ei gyflwyno.

4.1.3 Bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu hadolygu yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau (gweler paragraff 2.3.2) gan ystyried cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol. Gall rhai Safleoedd Ymgeisiol gael eu cynnwys orau o fewn y CDLl Newydd drwy gynnwys y safle o fewn ffin anheddiad yn hytrach nag fel 'Safle Penodedig'. Bydd rhagor o wybodaeth am sut y bydd Safleoedd Ymgeisiol yn llywio'r adolygiad o ffiniau aneddiadau yn cael ei darparu yn y Nodiadau Cyfarwyddyd sydd gyda'r ffurflen gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol.

4.1.4 Nodwch, pan fo gwybodaeth annigonol wedi'i chyflwyno gan gynigwyr safleoedd i ddangos bod y safle'n gallu bodloni ystyriaethau hidlo cychwynnol y safle, fe ellir eithrio'r safle.

## 4.2 Ystyriaethau Hidlo Safleoedd Cychwynnol:

### Trothwy Safleoedd

4.2.1 Ar gyfer safleoedd preswyl ceir **trothwy maint lleiaf y safle o 0.25 hectar neu bum annedd**, gyda dwysedd lleiaf o 25 annedd yr hectar [net]. Sylwch fod y polisi dwysedd tai yn y CDLl Mabwysiedig i'w adolygu, mae'r union ofyniad dwysedd wedi'i gadw ar gyfer cyfnod diweddarach yn y broses.

4.2.2 Ar gyfer cynigion ar gyfer datblygiad di-breswyl mae'n rhaid i adeilad fod ag **isafswm arwynebedd llawr o 1,000m²**.

Bydd safleoedd sy'n llai na'r trothwyon hyn yn cael eu hidlo allan ac ni fyddant yn mynd ymlaen i'r cam asesiad manwl o safleoedd.

### Perthynas â'r Anheddiad Presennol

4.2.3 **A yw'r safle o fewn, ar ymyl, neu y tu allan i anheddiad?** Os yw'r safle y tu allan neu heb berthynas agos ag anheddiad ar gyfer defnydd tir cyflogaeth, tai neu fanwerthu mae'n annhebygol iawn o symud ymlaen heb dystiolaeth ategol (e.e. ar gyfer safleoedd cyflogaeth sut y mae'r profion yn Nodyn Cyngor Techengol 23, swyddi wedi'u cynnwys, dewisiadau eraill a theilyngdod arbennig, wedi cael eu diwallu) oherwydd byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol h.y. datblygiad anghynaladwy yn y cefn gwlad agored.

4.2.4 Mae rhai defnyddiau y gellir eu hystyried yn dderbyniol ar gyfer datblygu yn y cefn gwlad agored (e.e. ynni adnewyddadwy, twristiaeth ac ati), ni fydd y rhain yn cael eu heithrio ar sail y berthynas ag anheddiad presennol.

## Perygl llifogydd

4.2.5 Bydd safleoedd sydd wedi'u lleoli o fewn **Parthau 2 neu 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP)** (gan gynnwys mewn Ardaloedd wedi'u Hamddiffyn), na fyddant yn bodloni'r **profion cyfiawnhad a derbyn meini prawf canlyniadau** (o ran defnyddiau a thir eisoes wedi'i ddatblygu a fyddai o dan fygythiad) yn cael ei hidlo allan. Mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygiadau hynod agored i niwed fel tai ym Mharth 3 Llifogydd Afonydd a Môr yr FMfP a safleoedd nad ydynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ym Mharthau 3 a 2 Llifogydd Afonydd a Môr yr FMfP. Gweler paragraffau 6.2.10 - 6.2.13) am ragor o wybodaeth.

4.2.6 Rhoddir ystyriaeth i'r TAN 15 (Rhagfyr 2021) sydd ar ddod ac a gyhoeddir ym mis Mehefin 2023 ac Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Rhanbarthol Canolbarth Cymru (2022).

## Asesiad o Hyfywedd

4.2.7 Bydd yn rhaid i gynigion ar gyfer datblygu adeiledig (tai, cyflogaeth) **gynnwys Asesiad o Hyfywedd**. Os nad oes gan y safle asesiad o hyfywedd mae'n annhebygol y caiff fynd ymlaen i'r cam nesaf o asesu.

4.2.8 Nid oes angen asesiad o hyfywedd ar gynigion ar gyfer diogelu safleoedd (e.e. seilwaith gwyrdd). (mae'r safleoedd hyn cael eu trin ar wahân gweler paragraff 4.1.1).

4.2.9 Bwriad y Cyngor yw bod y Model Hyfywedd Datblygu a ddatblygwyd yn rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio gan hyrwyddwyr safleoedd i asesu hyfywedd unrhyw Safleoedd Ymgeisiol sydd i'w cyflwyno. Bydd y model ar gael i hyrwyddwyr safleoedd ar gais i gynnal **'Asesiad o Hyfywedd Cychwynnol'.** Mae canllawiau pellach ar gael.

4.2.10 Dylai cynigwyr safleoedd nodi y bydd angen '**Asesiad o Hyfywedd manylach**' ar y cam asesiad manwl o safleoedd. Bydd angen cyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol er mwyn cefnogi'r cynnig Safleoedd Ymgeisiol. Codir tâl am fynediad at y model hyfywedd yn yr ail gam hwn, a fydd hefyd yn cwmpasu adolygiad manwl o'r model gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

4.2.11 Nid oes angen i gynigion Safleoedd Ymgeisiol sydd i'w hariannu trwy ddulliau eraill megis Grant Tai Cymdeithasol neu Fargen Dwf Canolbarth Cymru ddarparu asesiad o hyfywedd ond bydd angen iddynt ddangos bod y cyllid ar waith er mwyn gallu datblygu o fewn cyfnod y CDLl Newydd (2022-2037).

## Dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Sensitif i Ffosffad

4.2.12 **Bydd cynigion sydd wedi'u lleoli yn nalgylchoedd ardaloedd cadwraeth arbennig afonol sensitif i ffosffad yn cael eu hidlo allan** oni bai eu bod yn gallu dangos y gallant gyflawni niwtraliaeth ffosffad neu welliant, yn unol â'r canllawiau diweddaraf gan CNC.

4.2.13 Ar gyfer cynigion tai, er mwyn gallu dangos y gallu i'w cyflawni, bydd angen gollwng dwr gwastraff i Waith Trin Carthion lle mae triniaeth lleihau ffosfforws yn ei le (a thrwydded gyfredol) ac mae'r gwaith yn gallu cynnwys dwr gwastraff ychwanegol o fewn terfynau'r drwydded amgylchedd. **Bydd cynigion ond yn cael eu derbyn pan fydd camau i leihau ffosfforws yn eu lle a bod y gwaith yn gallu trin gwastraff dwr ychwanegol neu bod gwelliannau wedi'u cynllunio mewn Rhaglen Rheoli Asedau**. Bydd angen i gynigion mewn ardaloedd sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer gwelliannau i leihau ffosfforws sicrhau bod amseru gwelliannau o'r fath yn rhoi digon o amser i alluogi datblygu i gael ei gyflawni o fewn cyfnod y CDLl newydd (2022-2037).

4.2.14 **Bydd angen i gynigion nad ydynt yn rhai tai ddangos niwtraliaeth ffosffad neu welliant gan gyfeirio at gyngor diweddaraf CNC**, a byddant yn cael eu hystyried fesul achos.

### Materion Cyflawnadwyedd

4.2.15 Rhoddir ystyriaeth i **gyflawnadwyedd safleoedd** drwy naill ai bresenoldeb cyfyngiadau ffisegol mawr ar y safleoedd, hanes cynllunio (e.e. gwrthodiadau), cyfyngiadau cyfreithiol neu gyfamodau sy'n rhwystro'r safle rhag cael ei gyflwyno yng nghyfnod y CDLl Newydd.

### Ystyriaethau Polisi

4.2.16 Gellir hidlo Safleoedd Ymgeisiol allan os gellir darparu ar gyfer natur y cynnig o fewn polisïau Cenedlaethol neu bolisïau CDLl Newydd yn hytrach nag fel safle a ddyrannwyd.

# 5. Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol / Camau Ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir

## 5.1 Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol

5.1.1 Bydd pob un o'r Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynir ar gael i'w gweld ar dudalennau gwe ACLlau yn yr hyn a elwir yn 'Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol'. Bydd canlyniadau'r cam hidlo safleoedd cychwynnol hefyd ar gael i'r cyhoedd fel rhan o gyhoeddi'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

## 5.2 Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir

5.2.1 Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chyhoeddi'n rhan o ymgynghoriad statudol Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd (Mai/Mehefin 2023). Bydd unrhyw safleoedd allweddol i'r strategaeth (Safleoedd Strategol) yn cael eu cyhoeddi o fewn y Strategaeth a Ffefrir ei hun. Bydd ACLl yn gwahodd sylwadau ar unrhyw Safleodd Strategol a'r safleoedd yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol.

5.2.2 Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cynnwys manylion am statws pob safle ac yn ei gwneud hi'n hawdd adnabod y rhai sy'n weddill yn y broses asesu. Bydd canlyniadau'r asesiad hidlo safle cychwynnol hefyd yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chofrestr Safleoedd Ymgeisiol yng ngham ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir.

## 5.3 Sylwadau'r Ymgyngoreion

5.3.1 Dim ond y safleoedd hynny **nad ydynt** wedi'u hidlo allan o'r broses hidlo safleoedd gychwynnol bydd yn destun ymgynghoriad gyda'r ymgyngoreion perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys adrannau mewnol y Cyngor megis priffyrdd, tir halogedig, draenio tir ac addysg a sefydliadau allanol megis Priffyrdd Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys (YACP), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), darparwyr seilwaith, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru a'r Bwrdd Iechyd. Bydd hyn yn sicrhau bod cyrff o'r fath dim ond yn gwneud sylwadau ar safleoedd sydd â siawns resymol o gael eu cynnwys yn y CDLl Newydd. Bydd amseriad y gwaith o geisio sylwadau yn cyd-fynd ag ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir. Fodd bynnag, bydd ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau y bydd data'r Safleoedd Ymgeisiol ar gael o leiaf mis cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol er mwyn sicrhau bod gan gyrff o'r fath y capasiti i ymateb yn amserol.

# 6. Asesiad manwl o'r Safleoedd / Cam Asesu ISA

6.0.1 Cynhelir asesiad manylach o’r safle ar gyfer yr holl Safleoedd Ymgeisiol sydd wedi mynd drwy'r cam hidlo safleoedd cychwynnol, bydd hyn yn cynnwys eu hasesu o’u cymharu ag amcanion ISA yr Awdurdod Cynllunio Lleol (Gweler Atodiad 1). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddatblygu methodoleg asesu gynhwysfawr a systematig i asesu Safleoedd Ymgeisiol yn llawn er mwyn penderfynu a ydynt yn gynaliadwy, yn hyfyw ac y gellir eu cyflawni. Bydd hyn yn cael ei wneud yn dilyn yr Ymgynghoriad Strategol ac yn ystyried sylwadau ymgyngoreion ac unrhyw sylwadau a geir.

6.0.2 I ddangos bod y CDLl Newydd yn gadarn wrth gael ei archwilio, bydd yn rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyfiawnhau'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cynigion Safleoedd Ymgeisiol ac asesiadau o safleoedd cysylltiedig. Mae’r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn ei gwneud yn ofynnol fod y meini prawf a ddefnyddir yn unol ag egwyddorion datblygu a gwneud lleoedd cynaliadwy fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11).

6.0.3 Bydd yr ISA hefyd yn darparu dogfennau a chofnod o asesiadau o safleoedd gan gynnwys cyfiawnhad rhesymedig dros statws safle (wedi’i wrthod, dewis arall rhesymol neu a ffefrir). Bydd y Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu gwrthod os nad oes ganddynt botensial i fod naill ai'n safle arfaethedig, neu'n ddewis arall rhesymol.

## 6.1 Asesiad Manwl o’r Safleoedd

6.1.1 Bydd y cam asesiad manwl o safleoedd yn y broses Safleoedd Ymgeisiol yn dechrau ar ôl yr ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd ym mis Mai/Mehefin 2023 a bydd yn ystyried unrhyw sylwadau a ddaw i law. Ni fydd unrhyw safleoedd a gyflwynwyd ac a gafodd eu gwrthod fel rhan o’r hidlo safleoedd cychwynnol yn destun asesiad manwl o'r safleoedd ac ni fyddant yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y CDLl Newydd.

6.1.2 Mae'r meini prawf asesu yn adlewyrchu'r wybodaeth y gofynnir amdani ar ffurflen Safleoedd Ymgeisiol, a thrwy hynny yn galluogi cynigwyr safleoedd i nodi a effeithir ar safle gan un neu ragor o gyfyngiadau/dynodiadau. Mae'n ofynnol i gynigwyr safleoedd ddarparu gwybodaeth ategol sy'n egluro sut y gall y safleoedd ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r safle. Gall yr ACLl ofyn am wybodaeth ychwanegol oddi wrth gynigwyr safleoedd pan fo angen.

6.1.3 Bydd yr wybodaeth a ddarperir gan bob cynigydd safleoedd yn cael ei dilysu gan y tîm polisi cynllunio, mewn ymgynghoriad â meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor a phan fo angen, â sefydliadau allanol (megis: Priffyrdd Llywodraeth Cymru, CNC, Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys (YACP), darparwyr seilwaith ac ati).

6.1.4 Mae meini prawf yr asesiad manwl o safleoedd yn cael eu rhannu i'r categorïau canlynol:

- Lleoliad a hygyrchedd
- Cyd-destun a chymeriad safle
- Hygyrchedd a chapasiti priffyrdd
- Effaith Amgylcheddol a thirwedd
- Perygl lifogydd
- Ardaloedd/Clustogfeydd Diogelu Mwynau
- Capasiti seilwaith
- Cyflawni a hyfywedd

- Newid hinsawdd, gwneud lleoedd a gwella bioamrywiaeth

6.1.5 Bydd system sgorio 'goleuadau traffig' yn cael ei defnyddio i nodi pa safleoedd sy'n fwy dymunol o'u cymharu â meini prawf asesiad manwl o safleoedd a'r safleoedd hynny sy'n llai dymunol, gweler Tabl 1.

**Tabl 1. System Sgorio Asesiad Manwl o Safleoedd.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Cadarnhaol |
| **Oren** | Angen mwy o ystyriaeth |
| **Coch** | Negyddol |
| **Llwyd** | Ddim yn berthnasol neu ddim digon o wybodaeth (ond nid yw'n gweithredu i eithrio'r Safle Ymgeisiol o'r broses). |

## 6.2 Meini Prawf Asesiad Manwl o Safleoedd

### Lleoliad a Hygyrchedd

6.2.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd a gan ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd, bydd y CDLl Newydd yn cynnwys Strategaeth Dwf a Gofodol a Hierarchaeth Aneddiadau.

6.2.2 Yn gyffredinol, mae aneddiadau trefn uwch yn yr Hierarchaeth Aneddiadau yn darparu'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf, oherwydd eu bod yn cynnig gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Mae aneddiadau yn yr haenau isaf ac yn y cefn gwlad agored yn debygol o fod â llai o fynediad at wasanaethau a chyfleusterau, bydd y Strategaeth Ofodol a'r Hierarchaeth Aneddiadau yn rhoi arweiniad ynghylch lle y dylid dosbarthu twf datblygu gan flaenoriaethu twf yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy (aneddiadau sy'n uwch i fyny'r hierarchaeth aneddiadau) yn y lle cyntaf.

6.2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn datgan, mewn ardaloedd gwledig, "dylai awdurdodau lleol ddynodi canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy a'u nodi fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth". Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn ystyried y gofyniad hwn. Yn y cyfamser, rhoddir pwysigrwydd i aneddiadau ymylol llai ar lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus lle mae cyswllt swyddogaethol clir ag anheddiad mwy sy'n gweithredu fel canolfan wasanaeth.

**Tabl 2. Maen Prawf 1: Strategaeth a Ffefrir a Hierarchaeth Aneddiadau - Tai**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn, neu y byddai'n ffurfio estyniad rhesymegol i anheddiad sy'n cael ei nodi fel un sy'n addas ar gyfer marchnad agored fawr* a safleoedd tai fforddiadwy yn Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLl Newydd. |
| **Oren** | Mae'r safle o fewn neu'n ffinio ag anheddiad nas nodwyd ar gyfer safleoedd tai marchnad agored mawr ond sy'n ffafrio safleoedd eithriedig tai fforddiadwy. |
| **Coch** | Lleolir y safle yn y cefn gwlad agored, neu anheddiad haen is, nas nodwyd ar gyfer datblygiadau tai mawr. |

* Diffinnir safle mawr o fewn y CDLl Newydd fel pum annedd neu fwy.

### Tabl 3. Maen Prawf 2: Strategaeth a Ffefrir a Hierarchaeth Aneddiadau – Cyflogaeth / Manwerthu

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn neu wrth ymyl anheddiad a nodwyd ar gyfer cyflogaeth neu dwf manwerthu yn Hierarchaeth Aneddiadau CDLl Newydd. |
| **Oren** | Nid yw’r safle hwn o fewn neu wrth ymyl anheddiad, ond<br>• Mae tysytiolaeth wedi’i chyflwyno i arddangos sut y mae’r safle’n diwallu’r profion cyfiawnhad* fel y’i nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 23. Neu<br>• Mae'r safle o fewn neu'n ffinio â safle cyflogaeth / manwerthu presennol neu wedi ei nodi ym Margen Dwf Canolbarth Cymru. |
| **Coch** | Mae'r safle wedi ei leoli yn y cefn gwlad agored, neu anheddiad haen is nas nodwyd ar gyfer cyflogaeth neu dwf manwerthu yn y CDLl Newydd / Bargen Dwf ac mae'n groes i bolisi Cenedlaethol. |

* Swyddi wedi’u cynnwys, dewisiadau eraill a theilyngdod arbennig

### Tabl 4. Maen Prawf 3: Perthynas â Gwasanaethau Cymunedol / Cyfleusterau sydd â'r Capasiti i Gefnogi Twf.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae’r safle ymgeisiol o fewn 800 metr* o ganol anheddiad sydd ag ystod o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol+ (sydd â'r gallu i gefnogi twf). |
| **Oren** | Mae’r safle ymgeisiol o fewn, ond yn bellach na 800 metr, o ganol anheddiad sydd ag amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol (sydd â'r gallu i gefnogi twf). Neu<br>Mae'r safle o fewn anheddiad llai gyda nifer cyfyngedig o gyfleusterau, ond ceir anheddiad mwy sy'n cynnal ystod o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol (sydd â'r gallu i gefnogi twf) ac sydd â gwasanaethau bws / trên aml (sy'n cysylltu'r anheddiad mwy hyd at bellter o fewn 800 metr o’r safle ymgeisiol). |
| **Coch** | Mae un gwasanaeth / cyfleuster cymunedol neu ddim un o fewn 800 metr i’r safle ymgeisiol.<br>Nid oes gwasanaeth bws / trên aml i anheddiad mwy sy'n cynnal amrywiaeth o gyfleusterau o'r fath (sy'n cysylltu'r anheddiad mwy hyd at bellter o fewn 800 metr i’r safle ymgeisiol). |

* Mae 800 metr yn cyfateb i ddeng munud o gerdded.

+ Mae gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i: ysgolion, meddygfeydd, deintyddion, archfarchnadoedd, siopau lleol, banciau / cymdeithasau adeiladu, fferyllfeydd, gorsafoedd petrol, neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, eglwysi, tafarndai, canolfannau hamdden ac ati...

### Cymeriad a Chyd-destun y Safleoedd

6.2.4 Mae'r adran hon yn ystyried cymeriad a chyd-destun y safle sy'n cynnwys ystyried a yw'r Safle Ymgeisiol ar dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes neu ar dir glas (fel y'i diffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11). Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau ddilyn y Prawf Cymalog ac ystyried safleoedd tir a/neu safleoedd sydd wedi'u tanddefnyddio o'r blaen ac wedi'u lleoli o fewn aneddiadau presennol yn y lle cyntaf, gyda safleoedd ar gyrion aneddiadau yn cael eu hystyried wedi hynny. Os nad oes tir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen ar gael, yna dim ond bryd hynny dylid ystyried safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn neu ar ymyl aneddiadau.

6.2.5 Mae cymeriad a chyd-destun hefyd yn ystyried ffactorau megis a all nodweddion topograffig neu ddatblygiad ffisegol ar y safle rwystro datblygiad, pa un a allai defnyddiau tir cyfagos gael effaith andwyol bosibl ar y safle gyda'r posibilrwydd o halogi tir neu beidio.

**Tabl 5. Maen Prawf 4: Tir a ddatblygwyd o'r blaen / Tir Glas*.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Tir a ddatblygwyd o'r blaen o fewn neu ar ymyl aneddiadau |
| **Oren** | Tir glas o fewn neu ar ymyl aneddiadau |
| **Coch** | Tir glas yn y Cefn Gwlad Agored |
| **Llwyd** | Mae'r cynnig ar gyfer defnydd cyflogaeth ac mae'r profion cyfiawnhad a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 23 wedi'u harddangos.<br><br>Mae'r safle ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yng Nghefn Gwlad Agored, lle bydd cynigion yn cael eu hasesu fesul achos yn erbyn y profion a nodir mewn Polisi Cenedlaethol. |

* Noder: Bydd y Prawf Cymalog o ran blaenoriaethu'r defnydd o dir a ddatblygwyd o'r blaen yn hytrach na defnyddio safleoedd tir glas yn cael ei ddilyn.

### Tabl 6. Maen Prawf 5: Nodweddion Topograffig* neu Ddatblygu Ffisegol⁺ ar y Safle a Allai Rwystro Datblygiad.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Nid oes nodweddion topograffig (megis graddiannau serth) na datblygiad ffisegol (megis adeiledd, gwaith pibau) ar y safle a allai rwystro datblygiad. |
| **Oren** | Mae nodweddion topograffig neu ddatblygiadau ffisegol ar y safle a allai rwystro datblygiad, serch hynny gallai mesurau lliniaru fod yn bosibl, mae angen mwy o ymchwili a gwybodaeth. |
| **Coch** | Mae nodweddion topograffig neu ddatblygiadau ffisegol ar y safle a fydd yn cyfyngu ar gyflawnadwyedd a hyfywedd datblygiad. |

* Mae nodweddion topograffig yn cynnwys graddiannau serth a thir ansefydlog (bydd yn ofynnol i gyflwyniadau mewn ardaloedd o etifeddiaeth mwyngloddio glo ystyried gwybodaeth mwyngloddio glo, efallai bydd angen mesurau lliniaru (darperir rhagor o wybodaeth mewn nodyn cyfarwyddyd).
⁺ Mae datblygiad ffisegol yn cynnwys adeileddau presennol, nwy o'r prif gyflenwad neu linellau pŵer neu linellau pŵer uwchben.

### Tabl 7. Maen Prawf 6: Effaith Andwyol ar Amwynder (Sŵn, Aer, Arogl, Llygredd Golau neu Lwch) sy'n Deillio o Ddefnyddiau Tir Cyfagos a Allai Fod yn Wrthdrawiadol*

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Dim effaith andwyol ar amwynder, nid oes unrhyw ddefnydd tir gerllaw neu'n ffinio sy'n wrthdrawiadol. |
| **Oren** | Effaith andwyol bosibl ar amwynder yn deillio o ddefnyddiau tir gerllaw neu'n ffinio a allai fod yn wrthdrawiadol, fodd bynnag efallai bod mesurau lliniaru'n bosibl, mae angen mwy o ymchwil a gwybodaeth. |
| **Coch** | Byddai, fe fyddai effaith andwyol ar amwynder yn deillio o ddefnyddiau tir gwrthdrawiadol gerllaw neu'n ffinio sy'n annhebygol o gael ei liniaru'n foddhaol. |

* Mae'r egwyddor cyfrwng y newid (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Pennod 6) yn dweud mai'r busnes neu'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno newid sy'n gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. Mae hynny'n golygu y byddai'n rhaid i gynigydd safle sicrhau y ceir hyd i atebion i fynd i'r afael ag ansawdd aer neu sŵn o seilwaith, busnesau neu neuaddau cyfagos a'u rhoi ar waith i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol.

### Tabl 8. Maen Prawf 7: Tir Halogedig

| System Sgorio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Gwyrdd** | Nid yw'r safle wedi'i halogi. |
| **Oren** | Mae rhan neu'r safle i gyd wedi ei halogi ond mae tystiolaeth wedi ei roi i ddangos y byddai gwaith adfer yn bosibl ac yn hyfyw. |
| **Coch** | Mae halogiad yn gyfyngiad sylweddol ar y safle, nid oes digon o dystiolaeth wedi'i darparu, neu nid yw tystiolaeth wedi gallu dangos y gellir cyflawni gwaith adfer boddhaol a/neu y byddai'n hyfyw. |

## Hygyrchedd a Chapasiti Priffyrdd

6.2.6 Mae polisi cenedlaethol yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwneud lleoedd cynaliadwy gan sicrhau bod datblygiadau newydd â mynediad at ystod o wasanaethau / cyfleusterau drwy amrywiaeth o ffyrdd yn enwedig drwy gerdded a beicio ("Teithio Llesol"). O ganlyniad, mae'r pellter cymharol i'r cyfleusterau presennol, trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys lefel ac amlder trafnidiaeth gyhoeddus yn ffactorau pwysig wrth benderfynu addasrwydd y safle.

6.2.7 Fodd bynnag, mae polisi cenedlaethol hefyd yn cydnabod bod y cyfleoedd ar gyfer lleihau'r defnydd o geir a chynyddu'r defnydd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn fwy cyfyngedig nag mewn ardaloedd trefol. Mae paragraff 3.39 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn dweud "mewn ardaloedd gwledig dylid lleoli'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau y gellir eu cyrraedd yn gymharol dda drwy ddulliau di-gar o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. Dylai datblygiad yn yr ardaloedd hyn barhau i fabwysiadu canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a chynnig cysylltiadau teithio llesol da i ganol aneddiadau i leihau'r angen i deithio mewn car ar gyfer teithiau lleol".

6.2.8 Fel y sonnir amdano ym mharagraff 6.2.3, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) hefyd yn nodi (paragraff 3.40), mewn ardaloedd gwledig "Dylai awdurdodau lleol ddynodi canolfannau gwasanaethau lleol, neu glystyrau o aneddiadau llai lle gellir dangos cysylltiad swyddogaethol cynaliadwy a'u nodi fel y lleoliadau a ffefrir ar gyfer y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gan gynnwys darpariaeth tai a chyflogaeth". Felly, bydd y Maen Prawf yn yr asesiad safle hwn yn asesu safleoedd mewn aneddiadau llai i ddechrau ar sail bod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ag aneddiadau mwy sy'n gweithredu fel canolfannau gwasanaeth. Efallai y bydd hyn ac unrhyw faen prawf cysylltiedig yn destun newid wrth i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei datblygu.

### Tabl 9. Maen Prawf 8: Cysylltiadau Teithio Llesol i Ganol Aneddiadau

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn 400 metr i Lwybr Teithio Llesol sy'n bodoli eisoes neu wedi'i gynllunio. |
| **Oren** | Nid yw'r safle o fewn 400 metr i Lwybr Teithio Llesol sy'n bodoli eisoes neu wedi'i gynllunio ond mae llwybrau cerdded a beicio i ganol yr anheddiad ar gael. |
| **Coch** | Nid oes llwybrau Teithio Llesol na llwybrau cerdded a beicio ar gael. |

### Tabl 10. Maen Prawf 9: Mynediad i'r Ardal Ehangach ar Droed

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle yn hygyrch iawn ar droed (ceir rhwydwaith o balmentydd di-dor o ansawdd da sydd â goleuadau stryd sy'n hybu cerdded). |
| **Oren** | Mae angen mwy o ymchwil i'r safle o ran mynediad ar droed (efallai y bydd angen rhai gwelliannau megis gwelliannau i doriadau yn y rhwydwaith palmant a goleuadau, ond mae'r rhain yn ymddangos yn ymarferol a gellir mynd i'r afael â nhw). |
| **Coch** | Nid oes gan y safle fynediad hyfyw ar droed (mae'r safle mewn lleoliad ynysig, lle mae mynediad ar droed yn anodd iawn, os nad yn amhosibl). |

### Tabl 11. Maen Prawf 10: Lleoliad o fewn Pellter Cerdded (h.y. 800 metr) o Safle Bws neu Orsaf Reilffordd Bresennol.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle o fewn 800 metr i drafnidiaeth gyhoeddus aml (o leiaf bob dwy awr) sy'n cysylltu'r safle ag o leiaf un anheddiad mwy (sy'n gweithredu fel canolfan wasanaethau) sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau. |
| **Oren** | Mae gan y safle rywfaint o fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus (nid o fewn 800 metr ond o fewn pellter 'rhesymol') a/neu mae'r amledd yn fwy na phob dwy awr, ond mae yn cysylltu'r safle ag o leiaf un anheddiad mwy (sy'n gweithredu fel canolfan wasanaethau) sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau. |
| **Coch** | Nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael o fewn pellter 'rhesymol' i'r safle ac nid yw'r cynigydd y safle wedi rhoi tystiolaeth i ddangos sut mae modd datblygu'r safle yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. |
| **Llwyd** | Nid oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael o fewn pellter 'rhesymol' i'r safle, ond mae cynigydd y safle wedi dangos sut y gellir datblygu'r safle yn unol â'r hierarchaeth drafnidiaeth fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. |

### Tabl 12. Maen Prawf 11: Addasrwydd Mynediad i Gerbydau i mewn ac allan o'r Safle a'r Effaith ar y Briffordd.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Dim cyfyngiadau ar fynediad i'r briffordd, gall y safle ddarparu mynediad diogel gyda mân welliannau i'r briffordd. |
| **Oren** | Mân gyfyngiadau ar fynediad i'r briffordd y gellir eu lliniaru'n rhesymol. |
| **Coch** | Gwrthwynebiad o'r adran briffyrdd, nid yw'r safle'n gallu cyrraedd safonau priffyrdd, nid yw mesurau lliniaru yn ymarferol neu maent yn debygol o wneud cynigion datblygu yn anhyfyw. |

### Tabl 13. Maen Prawf 12: Capasiti'r Rhwydwaith Priffyrdd

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae gan y rhwydwaith presennol y capasiti i ddygymod â symudiadau cerbydau ychwanegol a grëir gan y datblygiad arfaethedig (gan gynnwys y cyfnod adeiladu). |
| **Oren** | Mae gan y rhwydwaith presennol gapasiti cyfyngedig i ddygymod â symudiadau cerbydau ychwanegol a grëir gan y datblygiad arfaethedig (gan gynnwys y cyfnod adeiladu), ond gellir datrys hyn gyda gwelliannau i'r briffordd. Mae angen ymchwilio ymhellach i ddangos ei bod yn bosibl cyflawni'r gwelliannau a'u bod yn hyfyw. |
| **Coch** | Dim capasiti o fewn y rhwydwaith priffyrdd presennol i ddygymod â chynnydd mewn symudiadau cerbydau, ni ellir cyflawni unrhyw fesurau lliniaru ac maent yn anhyfyw. |

### Tirwedd ac Effaith Amgylcheddol

6.2.9 Ystyrir yr effaith y gallai datblygu'r Safle Ymgeisiol ei gael ar y canlynol

- Dynodiadau treftadaeth naturiol megis
  - Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).
  - Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA).
  - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).
  - Safleoedd Ramsar.
  - Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNG).
  - Gwarchodfeydd Natur Lleol.
  - Coetiroedd Hynafol.
  - ac unrhyw ddynodiadau/safleoedd anstatudol rhanbarthol neu leol.
  - Rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod.

- Asedau Hanesyddol megis
  - Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig
  - Henebion Cofrestredig
  - Adeiladau Rhestredig
  - Ardaloedd Cadwraeth
  - Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig
  - ac unrhyw asedau hanesyddol anstatudol lleol (Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol).

- Tirlun
  - Parciau Cenedlaethol cyfagos
  - Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) cyfagos
  - Nodweddion a phriodweddau gwerthfawr tirwedd Powys.

- Tir Amaethyddol
  - Tir a ddynodwyd y Gorau a Mwyaf Amlbwrpas categorïau 3a ac uwch.

**Tabl 14. Maen Prawf 13: Effaith ar Safleoedd Dynodedig Treftadaeth Naturiol.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Dim effaith andwyol ar ddynodiad/safle treftadaeth naturiol. |
| **Oren** | Posibilrwydd o effaith andwyol ar ddynodiad/safle treftadaeth naturiol ond gellir rhoi mesurau lliniaru a gwella priodol ar waith. Mae angen rhagor o wybodaeth ac asesu er mwyn dangos bod modd lliniaru. |
| **Coch** | Posibilrwydd o effaith andwyol ar ddynodiad/safle treftadaeth naturiol yn bosibl, ac nid yw lliniaru yn bosibl, byddai niwed annerbyniol i nodweddion y safle dynodedig. |

### Tabl 15. Maen Prawf 14: Effaith ar Rywogaethau Gwarchodedig.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| Gwyrdd | Dim effaith andwyol ar rywogaeth a warchodir. |
| Oren | Posibilrwydd o effaith andwyol ar safle rhywogaethau a warchodir ond gellir rhoi mesurau lliniaru a gwella priodol ar waith. Mae angen mwy o wybodaeth ac asesu i ddangos y gellir cyflawni mesurau lliniaru. |
| Coch | Posibilrwydd o effaith andwyol ar rywogaethau a warchodir ac nid yw lliniaru yn bosibl. |

### Tabl 16. Maen Prawf 15: Effaith ar Safleoedd Dynodedig yr Amgylchedd Hanesyddol (a'u Lleoliadau lle bo hynny'n Briodol)

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| Gwyrdd | Dim effaith andwyol ar ddynodiad/safle'r amgylchedd hanesyddol na'i leoliad. |
| Oren | Effaith bosibl ar ddynodiad/safle’r amgylchedd hanesyddol – mae angen mwy o wybodaeth ac asesu i ddangos y gellir cyflawni mesurau lliniaru. |
| Coch | Mae gan y safle, neu mae'n agos iawn at ddynodiad/safle’r amgylchedd hanesyddol (a/neu ei leoliad) ac fe fyddai'n arwain at niwed i arwyddocâd y dynodiad neu fe fyddai mesurau lliniaru priodol yn annhebygol o gael eu cyflawni. |

### Tabl 17. Maen Prawf 16: Effaith ar Dirwedd.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Dim effaith andwyol ar dirwedd unrhyw Barciau Cenedlaethol* neu AHNE.<br>Dim effaith andwyol ar nodweddion nac ar briodweddau a sensitifrwydd tirwedd Powys a nodir yn yr Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol+ ar gyfer ardal CDLl Powys. |
| **Oren** | Dim effaith andwyol ar dirwedd unrhyw Barciau Cenedlaethol neu AHNE.<br>Effaith debygol ar y nodweddion, priodweddau a sensitifrwydd allweddol tirwedd a nodir yn yr Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol ar gyfer ardal CDLl Powys, ond mae'n bosibl y gellir lliniaru yn unol â'r canllawiau o fewn yr asesiad. Mae angen mwy o wybodaeth ac asesu i ganfod yr effeithiau ac i ddangos y gellir cyflawni mesurau lliniaru. |
| **Coch** | Bydd y safle'n cael effaith andwyol ar dirwedd Parc Cenedlaethol neu AHNE a/neu eu lleoliad.<br>Bydd y safle a'r cynnig yn cael effaith andwyol ar y nodweddion, priodweddau a sensitifrwydd allweddol tirwedd a nodir yn Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol ar gyfer ardal CDLl Powys ac sy'n gwrthdaro â'r canllawiau sydd ynddo. |

* Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw i ddibenion a dyletswydd Parciau Cenedlaethol.
+ Mae'r Asesiad Cymeriad Tirwedd Lleol ar gyfer ardal CDLl Powys wedi rhoi sylw i haenau ac ardaloedd agwedd LANDMAP, byddwn yn cyfeirio ymhellach at LANDMAP wrth ystyried Safleoedd Ymgeisiol.

### Tabl 18. Maen Prawf 17: Effaith ar Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle yn dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen neu ni fyddai'n arwain at golli graddau 1, 2 neu 3a BMV tir amaethyddol . |
| **Oren** | Mae'r safle ar dir amaethyddol Gradd 3a BMV ac nid yw tir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen neu dir yn y graddau amaethyddol is ar gael. |
| **Coch** | Byddai'r safle'n arwain at golli tir Gradd 1 neu Radd 2 BMV, neu Radd 3a lle mae safleoedd eraill naill ai ar dir sydd wedi'i ddatblygu o'r blaen neu dir yn y graddau amaethyddol is ar gael. |

## Perygl llifogydd

6.2.10 Cyngor presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer perygl lifogydd yw Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004), cefnogir y canllawiau hyn gan Fapiau Cynghori Datblygu sy'n dangos ardaloedd lle mae perygl lifogydd wedi'u categoreiddio yn C1 ac C2.

Diffinnir y rhain fel a ganlyn:

- **C1**: "ardaloedd o'r gorlifdir sydd wedi eu datblygu ac sy’n cael eu gwasanaethu gan isadeiledd sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd".
- **C2**: "Ardaloedd o'r gorlifdir sydd heb isadeiledd sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd."

6.2.11 Mae TAN 15 yn y broses o gael ei ddiwygio gyda'r fersiwn ddiweddaraf i'w chyhoeddi ym Mis Mehefin 2023. Cefnogir y TAN 15 diwygiedig gan set wahanol o fapiau perygl llifogydd a elwir ar y cyd yn Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP). Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

**Parthau Wedi’u Hamddiffyn** - Ardaloedd lle mae isadeiledd rheoli perygl llifogydd yn darparu isafswm safon diogelwch yn erbyn llifogydd o afonydd 1:100 ac yn erbyn llifogydd o'r môr o 1:200 (ynghyd â newid hinsawdd a bwrdd rhydd).

**Parth Llifogydd 2 Afonydd** – Posibilrwydd o lifogydd yn llai na 1 o bob 100 (1%) ond yn fwy na 1 o bob 1000 (0.1%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.

**Parth Llifogydd 3 Afonydd** - Posibilrwydd o lifogydd dros 1 o bob 100 (1%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.

**Parth Llifogydd 2 Môr** – Posibilrwydd o lifogydd yn llai na 1 o bob 200 (0.5%) ond yn fwy na 1 o bob 1000 (0.1%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd

**Parth Llifogydd 3 Môr** - Posibilrwydd o lifogydd dros 1 o bob 200 (0.5%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.

**Parth Llifogydd 2 Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach** – Posibilrwydd o lifogydd yn llai na 1 o bob 100 (1%) ond yn fwy na 1 o bob 1000 (0.1%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.

**Parth Llifogydd 3 Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach** – Posibilrwydd o lifogydd dros 1 o bob 100 (1%) mewn blwyddyn benodol, gan gynnwys newid hinsawdd.

6.2.12 Mae Llywodraeth Cymru mewn llythyr at ACLlau, dyddiedig 15 Rhagfyr 2021, ynghylch Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 yn datgan "Pan fo cynlluniau yn cael eu hadolygu, rhaid i'r ystyriaethau risg llifogydd sy'n bwydo i'r strategaeth anheddu a dyraniadau safle fod yn unol â'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio". Felly, bydd y mapiau perygl llifogydd sy'n ffurfio’r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) yn cael eu defnyddio i asesu addasrwydd Safleoedd Ymgeisiol o ran perygl llifogydd. Rhoddir ystyriaeth i'r polisïau yn y TAN 15 diwygiedig sydd i ddod (a gyhoeddir Mehefin 2023) ac Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Rhanbarthol Canolbarth Cymru (2022) (i'w gyhoeddi erbyn Tachwedd 2022).

6.2.13 Bydd safleoedd sydd wedi’u lleoli o fewn Parthau 2 neu 3 y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) (gan gynnwys mewn Ardaloedd wedi’u Hamddiffyn), na fyddant yn bodloni'r profion cyfiawnhad a derbyn meini prawf canlyniadau (o ran defnyddiau a thir

eisoes wedi'i ddatblygu a fyddai o dan fygythiad) yn cael ei hidlo allan yn gynnar (cam hidlo safle cychwynnol) yn y broses asesu safleoedd ymgeisiol, mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygiadau hynod agored i niwed fel tai ym Mharthau 3 Llifogydd Afonydd a Môr yr FMfP a safleoedd nad ydynt ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ym Mharthau 2 Llifogydd Afonydd a Môr yr FMfP.

### Tabl 19. Maen Prawf 18: Datblygiad Hynod Agored i Niwed* mewn Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) parthau Afonydd a Môr 2 a 3

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Nid yw'r safle mewn ardal a nodwyd fel un â pherygl llifogydd afon neu arfordirol yn y FMfP |
| **Oren** | Mae'r safle ar gyfer datblygiad hynod agored i niwed o fewn Ardal wedi'i Hamddiffyn a/neu Barth 2, ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ac mae'n cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n dangos y gwelir bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y datblygiad a gynigir yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf a gynhwysir yn adran 11 o TAN 15 (2021). |
| **Coch** | Mae'r safle ar gyfer datblygiad hynod agored i niwed o fewn Parth 3, neu<br>mewn Ardal wedi'i Hamddiffyn neu Barth 2, ar dir glas neu<br>mewn Ardal wedi'i Hamddiffyn neu Barth 2, ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ond heb ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n dangos cydweddiad â'r meini prawf a gynhwysir yn adran 11 o TAN 15 (2021). |

*Yn cynnwys: pob safle preswyl (gan gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) datblygiadau twristiaeth, ysgolion, sefydliadau gofal plant, cyfleusterau meddygol, safleoedd gwaredu gwastraff, planhigion cemegol, llosgyddion, gwasanaethau brys. Gweler TAN 15 (Rhagfyr 2021) am restr lawn.

**Tabl 20. Maen Prawf 19: Datblygiad Llai Agored i Niwed* ym mharthau Afonydd a Môr 2 a 3 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP).**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Nid yw'r safle mewn ardal a nodwyd fel un â pherygl llifogydd afon neu arfordirol yn FMfP |
| **Oren** | Mae'r safle ar gyfer datblygiad llai agored i niwed o fewn Parth 3 neu Barth 2 (gan gynnwys Ardaloedd wedi'u Hamddiffyn), ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ac mae'n cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n dangos y gwelir bod canlyniadau posibl digwyddiad llifogydd ar gyfer y datblygiad a gynigir yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf a gynhwysir yn adran 11 o TAN 15 (2021). |
| **Coch** | Mae'r safle ar gyfer datblygiad llai agored i niwed o fewn Parth 3 neu Barth 2 (gan gynnwys Ardaloedd wedi'i Hamddiffyn) ar dir glas a/neu nid yw'n cael ei gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd. |

* Yn cynnwys: datblygiad diwydiannol cyffredinol, cyflogaeth, datblygu masnachol a manwerthu, seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau, adeiladau cyhoeddus, addoldai. Gweler TAN 15 (Rhagfyr 2021) am restr lawn.

**Tabl 21. Maen Prawf 20: Datblygiad mewn Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) Llifogydd Dŵr Arwyneb.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Nid yw'r safle mewn ardal a nodwyd fel un â pherygl llifogydd dŵr wyneb yn FMfP. |
| **Oren** | Nodir bod y safle o fewn Parthau 2 neu 3 Llifogydd Dŵr Arwyneb FMfP ac mae ganddo Asesiad Canlyniadau Llifogydd (CDLl) sy'n dangos bod lliniaru yn ymarferol. |
| **Coch** | Nodir bod y safle o fewn Parthau Llifogydd Dŵr Arwyneb FMfP 2 neu 3 ac nid yw'n cynnwys CDLl sy'n dangos bod lliniaru yn ymarferol. |

### Ardaloedd Diogelu/Clustogfeydd Mwynau

6.2.14 Nid yw diogelu adnoddau mwynau a chynnwys tir o fewn Ardal Diogelu Mwynau yn rhoi rhagdybiaeth i ddatblygiad gwaith mwynau gael ei ganiatáu ond mae'n galluogi ardaloedd i gael eu diogelu fel nad yw adnoddau mwynau'n cael eu sterileiddio gan ddatblygiad a'u bod yn parhau i fod yn hygyrch i genedlaethau'r dyfodol. Dylid ystyried ardaloedd Diogelu Mwynau fel math o gyfyngiadau i sicrhau bod presenoldeb adnoddau mwynau yn cael ei ystyried yn ddigonol ac yn effeithiol mewn cynigion datblygu.

6.2.15 Mae angen clustogfeydd mwynau o gwmpas safleoedd echdynnu mwynau a ganiateir ac a ddyrannwyd. O fewn y glustogfa, ni ddylid dyrannu unrhyw ddatblygiad sensitif newydd nac echdynnu mwynau. Mae datblygiad sensitif yn unrhyw adeilad sy'n cael ei feddiannu gan bobl yn rheolaidd ac mae'n cynnwys cynigion datblygu megis preswyl, twristiaeth, a chyfleusterau cymunedol lle dylid disgwyl safon amwynder derbyniol. Dim ond mewn clustogfa y gellir ystyried dyraniadau lle na fyddai'r defnydd arfaethedig yn niweidiol i weithrediad y safle echdynnu mwynau.

**Tabl 22. Maen Prawf 21: Ardaloedd/Clustogfeydd Diogelu Mwynau.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Nid yw'r safle o fewn ardal diogelu mwynau, neu ni fyddai'r cynnig yn sterileiddio adnodd mwynau a ddiogelir yn ddiangen.<br><br>Nid yw'r safle o fewn clustogfa mwynau neu nid yw'n cael ei ddosbarthu fel defnydd sensitif o fewn clustogfa. |
| **Oren** | Mae'r safle o fewn ardal diogelu mwynau, ond mae rhagor o wybodaeth wedi'i darparu i gyfiawnhau un neu fwy o'r meini prawf isod:<br><br>• Na fydd yr adnoddau mwynau o bosibl o werth yn y dyfodol; neu<br>• Bydd y mwyn yn cael ei echdynnu'n foddhaol cyn i unrhyw ddatblygiad ddigwydd; neu<br>• Ni fyddai echdynnu yn bodloni'r prawf o dderbynioldeb amgylcheddol na budd cymunedol fel y nodir yn y Polisi Cenedlaethol; neu<br>• Mae angen trechol am y datblygiad er budd y cyhoedd.<br><br>Mae'r safle o fewn clustogfa mwynau, ond ni fydd datblygiad yn niweidiol i weithrediad y safle echdynnu mwynau. |
| **Coch** | Mae'r safle o fewn ardal diogelu mwynau a byddai'n arwain at sterileiddio yr adnodd mwynau'n ddi-angen. Neu<br><br>Mae'r safle yn cynnig defnydd sensitif o fewn Clustogfa Mwynau. |

### Seilwaith / Capasiti Cyfleustodau

6.2.16 Ystyrir a oes digon o gapasiti yn y seilwaith lleol i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig. Lle bwriedir gwneud gwelliannau er mwyn cynyddu capasiti, bydd angen darparu manylion ar sut y caiff gwelliannau eu hariannu, pryd y bydd y gwelliannau yn digwydd, sut bydd hyn yn effeithio ar gyflawni'r safle a sut y gellir cyflawni'r datblygiad o fewn cyfnod y CDLl Newydd (2022-2037).

Mae seilwaith i'w ystyried o fewn y maen prawf hwn yn cynnwys:

- Dŵr
- Gwaith Trin Carthion
- Trydan
- Nwy
- Darpariaeth band eang

6.2.17 Bydd Safleoedd Ymgeisiol sydd mewn Dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Sensitif i Ffosffad yn cael eu hasesu yn gynnar yn y cam hidlo safleoedd cychwynnol (paragraffau 4.2.12 – 4.2.14). Bydd hyn yn mesur gallu safleoedd i gysylltu â gwaith trin carthion sydd â phroses lleihau ffosfforws (gyda thrwydded gyfoes) i roi gwelliannau yn eu lle, mewn modd amserol i alluogi cyflawni o fewn y Cyfnod CDLl Newydd.

6.2.18 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn casglu rhywfaint o wybodaeth, ar lefel aneddiadau, ar gapasiti seilwaith a gwelliannau sydd wedi'u cynllunio, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn Cynllun Seilwaith ochr yn ochr â Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd. Pan fydd diffygion yn cael eu nodi o fewn y Cynllun Seilwaith, gofynnir i gynigwyr safleoedd ddarparu rhagor o dystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r Safle.

**Tabl 23. Maen prawf 22: Capasiti Seilwaith.**

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae gan y seilwaith y capasiti i wasanaethu'r datblygiad. |
| **Oren** | Mae gan y seilwaith gapasiti cyfyngedig; fodd bynnag, bwriedir i welliannau gynyddu'r ddarpariaeth gan ddarparwr y seilwaith neu gan hyrwyddwr y safle. Mae angen rhagor o wybodaeth i ddangos sut a phryd y bydd gwelliannau'n digwydd, bod y datblygiad hwnnw'n hyfyw ac y gellir ei gyflawni o fewn cyfnod y cynllun. |
| **Coch** | Diffyg mewn capasiti seilwaith, yn annhebygol yr ymdrinnir ag ef heb effeithio ar hyfywedd y datblygiad a/neu gyfyngu ar y gallu i'r datblygiad gael ei gyflawni o fewn cyfnod y cynllun. |

## Cyflawni a Hyfywedd

6.2.19 Wrth benderfynu pa mor addas yw Safleoedd Ymgeisiol, un o amcanion allweddol yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd sefydlu a oes gan gynigydd safle fwriad o ddifri i ddatblygu'r safle ac a all wneud hynny o fewn amserlen y CDLl Newydd. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r prawf cadernid 'A fydd y cynllun yn cyflawni?' Bydd disgwyl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos hyn yn yr Archwiliad Cyhoeddus.

6.2.20 Efallai na fydd safle sy'n gyflawnadwy yn hyfyw yn ariannol, ac i'r gwrthwyneb. Yn ystod y cam asesu'r Safleoedd Ymgeisiol mae'n rhaid ystyried y ddwy elfen eu cyfanrwydd, mewn modd eang a chymesur, ynghyd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

6.2.21 Dylai Safleoedd Ymgeisiol fod yn gynaliadwy, yn gyflawnadwy ac yn hyfyw yn ariannol er mwyn cael eu hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y cynllun gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylai pob safle fodloni'r paramedrau a'r wybodaeth eang a gaiff eu cyhoeddi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bod â digon o hyblygrwydd ariannol i fodloni holl ofynion polisi'r CDLlau Newydd (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored ac ati).

6.2.22 Ystyrir yn gynnar yn y broses asesu yn ystod y cam hidlo safleoedd cychwynnol, unrhyw rwystrau rhag cyflawni'r safleoedd drwy naill ai bresenoldeb cyfyngiadau ffisegol mawr ar y safle, hanes cynllunio (e.e. gwrthodiadau), cyfyngiadau cyfreithiol neu gyfamodau sy'n cyfyngu'r safle rhag cael ei gyflwyno yng nghyfnod y Cynllun. Gweler paragraff 4.2.15.

### Tabl 24. Maen Prawf 23: Perchnogaeth ac Ystyriaethau Cyfreithiol – Tir Cyhoeddus.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle'n dir cyhoeddus ond fe'i nodir mewn strategaeth waredu gyhoeddedig a/neu drwy benderfyniad y Cyngor os bwriedir i'r tir gael ei gadw/neu ei werthu gan y Cyngor. |
| **Oren** | Mae'r safle'n dir cyhoeddus ond nid yw wedi ei nodi eto mewn strategaeth waredu gyhoeddedig a/neu drwy benderfyniad y Cyngor os bwriedir i'r tir gael ei gadw/neu ei werthu gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n cael ei ystyried ar gyfer cynhwysiant / penderfyniad o fewn y chwe mis nesaf. |
| **Coch** | Nid yw'r safle'n cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys o fewn strategaeth waredu gyhoeddedig na drwy benderfyniad y Cyngor os bwriedir i'r tir gael ei gadw/neu ei werthu gan y Cyngor. |

### Tabl 25. Maen Prawf 24: Perchnogaeth ac Ystyriaethau Cyfreithiol – Tirfeddiannaeth.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle yn eiddo i un tirfeddiannwr, gyda thystiolaeth wedi ei chyflwyno i ddangos ei fod yn cefnogi cynnig y safle neu os yw'n eiddo i fwy nag un person, bod tystiolaeth o gytundeb ynghylch cynnig y safle. |
| **Oren** | Mae'r safle yn eiddo i nifer o dirfeddianwyr heb unrhyw dystiolaeth o gytundeb i gydweithio. Mae angen rhagor o wybodaeth. |
| **Coch** | Mae ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y safle cyfan neu ran ohono a/neu ddim tystiolaeth i ddangos bod y tirfeddiannwr/tirfeddianwyr yn cefnogi cynnig y safle. |

### Tabl 26. Maen Prawf 25: Perchnogaeth ac Ystyriaethau Cyfreithiol – Buddiannau Datblygwyr.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae tystiolaeth o fuddiant datblygwyr. |
| **Oren** | Does dim buddiant datblygwyr yn cael ei nodi ar hyn o bryd, ond mae'r safle yn cael ei farchnata. |
| **Llwyd** | Ni fydd y ffaith nad oes buddiant datblygwyr yn eithrio'r safle o reidrwydd . |

### Tabl 27. Maen Prawf 26: Cyflawnadwyedd - Safleoedd a Ddyrannwyd Presennol yn y CDLl Mabwysiedig (2011-2026)

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae'r safle yn safle sydd wedi ei ddyrannu yn y CDLl Mabwysiedig sydd heb ei gyflwyno, ond mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno sy'n disgwyl penderfyniad* neu'n disgwyl llofnod ar gytundeb Adran 106. |
| **Oren** | Mae'r safle yn safle sydd wedi ei ddyrannu yn y CDLl Mabwysiedig sydd heb ei gyflwyno, ond mae digon o dystiolaeth wedi ei gyflwyno i ddangos sut mae rhwystrau rhag cyflawni wedi'u datrys ac y bydd modd i'r safle gael ei gyflwyno yng nghyfnod y CDLl Newydd. |
| **Coch** | Mae'r safle yn safle a ddyrannwyd yn y CDLl Mabwysiedig sydd heb ei gyflwyno, ni chyflwynwyd tystiolaeth neu yr oedd yn annigonol i ddangos y byddai'r safle'n cael ei gyflwyno a'i gyflawni yng nghyfnod y CDLl Newydd. |

* Bydd safleoedd sydd wedi cael caniatâd ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ofodol y CDLl Newydd yn cael eu dangos fel safleoedd yr ymrwymir iddynt yn y CDLl Newydd.

### Tabl 28. Maen prawf 27: Argaeledd Safleoedd.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor byr (o fewn 5 mlynedd) |
| **Oren** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor canolig (5-10 mlynedd) |
| **Coch** | Ar gael i'w ddatblygu yn y tymor hir (10 mlynedd neu fwy) |

### Tabl 29. Maen Prawf 28: Hyfywedd.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Cyflwynwyd Asesiad Hyfywedd manwl sy'n bodloni'r gofynion a osodwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y datblygiad yn un hyfyw. Neu<br>Mae dulliau eraill o ariannu ar waith lle dangoswyd cyflawnadwyedd er mwyn sicrhau cyllid (e.e. Grant Tai Cymdeithasol, Bargen Dwf Canolbarth Cymru). |
| **Oren** | Cyflwynwyd Asesiad Hyfywedd manwl neu dystiolaeth ar fecanweithiau ariannu eraill ond mae angen mwy o wybodaeth. |
| **Coch** | Nid oes digon o dystiolaeth ar hyfywedd / mecanweithiau ariannu eraill wedi'u cyflwyno. Neu<br>Mae tystiolaeth hyfywedd wedi'i sicrhau sy'n dangos nad yw hyfywedd y safle yn ddigonol i ddangos bod modd cyflawni'r safle a'i fod yn gallu bodloni gofynion tai fforddiadwy y Cynllun a gofynion polisi cynllunio angenrheidiol eraill. |

6.2.23 Bydd yr wybodaeth Asesu Hyfywedd cychwynnol a ddarparwyd yn ystod y cam hidlo safleoedd cychwynnol yn destun gwiriad gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd angen Asesiad Hyfywedd mwy manwl yn y cam asesu safleoedd manwl hwn, lle gofynnir am wybodaeth ac asesiadau ychwanegol i ddangos y gall y safle fodloni gofynion polisi'r CDLl Newydd a pharhau i fod yn hyfyw a chyflawnadwy. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion Asesu Hyfywedd wedi'u darparu ynghyd â'r Nodyn Cyfarwyddyd.

6.2.24 Pan fo datblygiad i'w ariannu trwy fecanweithiau eraill megis grant tai cymdeithasol neu Fargen Canolbarth Cymru bydd angen darparu tystiolaeth amgen i ddangos cyflawnadwyedd.

### Tabl 30. Maen Prawf 29: Arfarnu Safle*.

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae’r safle’n edrych fel un y gellid ei ddatblygu’n realistig ac mae'n wirioneddol addas i'w ddatblygu. |
| **Oren** | Mae'r safle’n edrych fel un sydd â photensial i gael ei ddatblygu'n realistig a'i fod yn addas i'w ddatblygu, ond bod angen rhagor o wybodaeth. |
| **Coch** | Nid yw'r safle yn edrych fel un y gellid ei ddatblygu'n realistig a/neu nid yw'n addas i'w ddatblygu o fewn cyfnod y CDLl Newydd. |

*Bydd y maen prawf arfarnu safle yn ystyried canlyniad meini prawf cam asesu safleoedd manwl blaenorol, ynghyd ag arsylwadau Swyddog Polisi Cynllunio ac ymweliad â'r safle.

## Newid Hinsawdd, Gwneud Lleoedd a Gwella Bioamrywiaeth

6.2.25 Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn rhoi pwyslais ar drosglwyddo i economi carbon isel, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau bregusrwydd adnoddau naturiol i effeithiau hinsoddol a chreu amgylchedd adeiledig a all addasu i newid yn yr hinsawdd, gan hefyd gadw at egwyddorion Rheolaeth Gynaliadwy o'r Amgylchedd Naturiol. Bydd cyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol hefyd yn cael eu hystyried a ydynt yn cyd-fynd â nodau ac amcanion Datganiad Ardal Canolbarth Cymru.

6.2.26 Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn nodi ym mharagraff 5.8.1, "Dylai'r system gynllunio gefnogi datblygiad newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithiol iawn, yn cefnogi datgarboneiddio, **yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac yn addasu i effeithiau yr argyfwng hinsawdd** nawr ac i'r dyfodol trwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol"

6.2.27 Mae Creu Lleoedd yn ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf. Mae "creu lleoedd" yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau.

6.2.28 Er mwyn ymgorffori creu lleoedd mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau datblygu a chynigion datblygu yn ceisio sicrhau datblygiadau sy'n mynd i'r afael â **Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy,** sef:

- Creu a Chynnal Cymunedau
- Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau
- Helpu Ein Heconomi i Dyfu mewn Ffordd Gynaliadwy
- Amddiffyn yr Amgylchedd a Chyfyngu ar yr Effeithiau ar yr Amgylchedd
- Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

6.2.29 Yn unol â Rhan 1 Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i ACLlau **gynnal a gwella bioamrywiaeth** wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys trwy'r broses gynllunio, ac wrth wneud hynny **hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau**. Felly, mae angen i gynigwyr safleoedd ystyried sut y gall cynigion Safleoedd Ymgeisiol ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth sy'n cefnogi cydnerthedd ecosystemau.

### Tabl 31. Maen Prawf 30: Mynd i'r afael ag Achosion yr Argyfwng Hinsawdd*

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae cynigydd y safle wedi rhoi manylion ynghylch sut y bydd y datblygiad yn cyflawni carbon sero net. |
| **Oren** | Bydd y datblygiad yn ymgorffori mesurau lleihau carbon a/neu ffynonellau ynni sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol gan Reoliadau Adeiladu. |
| **Coch** | Mae'r cynnig yn ystyried peidio ag ymgorffori mesurau lleihau carbon a/neu ffynonellau ynni sy'n fwy na'r hyn sy'n ofynnol gan Reoliadau Adeiladu. |

* Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodyn Cyfarwyddyd ynghylch yr hyn y disgwylir i gynigwyr safle ei gyflwyno i ddangos cydweddiad â'r maen prawf hwn.

### Tabl 32. Maen prawf 31: Creu Lleoedd Cynaliadwy*

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae cynigydd y safle wedi darparu gwybodaeth sy'n dangos sut y byddant yn ymdrin â'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) |
| **Oren** | Mae gan y cynnig y potensial i ymdrin â holl Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11), ond mae angen rhagor o wybodaeth. |
| **Coch** | Nid yw'r cynnig yn gallu ymdrin â Chanlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) / nid oes digon o wybodaeth wedi'i darparu gan gynigydd y safle. |

* Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Nodyn Cyfarwyddyd ynghylch yr hyn y disgwylir i gynigwyr safle ei gyflwyno i ddangos cydweddiad â'r maen prawf hwn.

### Tabl 33. Maen prawf 32: Gwelliannau Bioamrywiaeth

| System Sgorio | Disgrifiad |
|---|---|
| **Gwyrdd** | Mae cynigydd y safle wedi darparu gwybodaeth sy'n dangos y bydd y safle yn darparu gwelliannau bioamrywiaeth sy'n cefnogi cydnerthedd ecosystemau. |
| **Oren** | Mae gan y cynnig y potensial i allu darparu gwelliannau bioamrywiaeth sy'n cefnogi cydnerthedd ecosystemau, ond mae angen rhagor o wybodaeth. |
| **Coch** | Dim digon o dystiolaeth wedi'i darparu i ddangos y gall y safle ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth sy'n cefnogi cydnerthedd ecosystemau. |

# 7. Cynllun Adnau – Cam Olaf Dewis Safleoedd

7.0.1 Bydd y cam asesu safleoedd manwl yn cael ei ddefnyddio i hidlo Safleoedd Ymgeisiol nad ydynt yn gallu dangos cynaliadwyedd, cyflawnadwyedd a hyfywedd. Bydd y safleoedd sydd weddill yn y broses yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn penderfynu pa rai sydd fwyaf addas ar gyfer y dyraniadau yn y CDLl Newydd.

7.0.2 Yn ogystal â'r asesiad manwl o'r safle, ystyrir sut mae safleoedd yn perfformio o gymharu ag asesiad safle o fewn fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA) (Atodiad 1). Bydd y fframwaith asesu safleoedd ISA yn llywio sut y mae'r safle yn cydsynio yn erbyn y gwahanol effeithiau amgylcheddol sy'n adlewyrchu'r Amcanion ISA.

7.0.3 Lle ceir nifer o safleoedd cynaliadwy, cyflawnadwy a hyfyw i ddewis ohonynt o fewn anheddiad, ystyrir hefyd sylwadau a wnaed ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (a wnaed ar adeg ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd), mewn rhai achosion ceisir rhagor o adborth rhanddeiliaid. Bydd y **safleoedd mwyaf addas a'r rhai a ffefrir fwyaf yn cael eu dangos ar fapiau mewnosod yn y Cynllun Adnau** a fydd ar gael i ymgynghori yn ei gylch o fis Chwefror i fis Mawrth 2024.

7.0.4 Bydd yr ymgynghoriad ar y CDLl Newydd Adnau yn gyfle i'r holl randdeiliaid roi sylwadau ar y safleoedd a ddyrannwyd. Gellir cyflwyno sylwadau i ofyn am ddiwygio ffiniau dyraniad, i gynnig bod y safle yn cael ei ddileu, neu ar gyfer ychwanegu safleoedd newydd. Bydd yn ofynnol i unrhyw safleoedd newydd a gynigir mewn ymateb i'r cam ymgynghori Adnau gyflwyno ISA yn seiliedig ar fframwaith yr Awdurdod Cynllunio Lleol, dylid ystyried hefyd sut mae'r safle'n cyd-fynd â methodoleg asesu Safleoedd Ymgeisiol.

7.0.5 Wrth baratoi ar gyfer yr Archwiliad mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r ACLl gael rhestr o safleoedd posibl wrth gefn wedi'u blaenoriaethu y gellid eu cynnig fel dewisiadau amgen (yn lle'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Adnau) a'u hychwanegu at y cynllun, pe bai angen safleoedd ychwanegol **ar ôl i'r cynllun gael ei ystyried trwy'r gwrandawiadau ffurfiol yn yr Archwiliad Cyhoeddus**. Nid yw safleoedd wrth gefn yn ddyraniadau, maent yn safleoedd y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried yn addas ac y gellir eu cyflawni mewn cysylltiad â'r strategaeth ond nid ydynt wedi eu cynnwys o fewn y CDLl Newydd Adnau. Gall safleoedd sydd wedi gallu dangos cynaliadwyedd, cyflawnadwyedd a hyfywedd drwy asesiad safle manwl ond sydd heb eu dewis i fod yn ddyraniadau yn y CDLl Newydd (oherwydd dewiswyd safle mwy ffafriol) gael eu dewis yn 'Safleoedd Wrth Gefn'. Bydd rhanddeiliaid allweddol perthnasol yn cael gwybod am unrhyw safleoedd wrth gefn a byddant yn cael cyfle i wneud sylwadau.

# 8. Archwilio – Cam Mabwysiadu

8.0.1 Yn dilyn ymgynghoriad y Cynllun Adnau, bydd y CDLl Newydd a'i dystiolaeth ategol yn cael ei gyflwyno ar gyfer Archwiliad cyhoeddus. Yna bydd Arolygydd(ion) yn cael eu penodi ar ran Gweinidogion Cymru i gynnal Archwiliad annibynnol o'r cynllun. Bydd yr Archwiliad yn asesu a yw gofynion paratoi'r cynllun wedi'u bodloni ac a yw'r CDLl yn bodloni'r tri phrawf 'cadernid' a nodir ym Mhennod 6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3).

8.0.2 Bydd yr Arolygydd(ion) yn ceisio sicrhau bod y CDLl Newydd yn 'gadarn' a bod pob pryder wedi cael ei ystyried. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw'r safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun yn gynaliadwy, yn gyflawnadwy, ac yn hyfyw.

8.0.3 Bydd yr Arolygydd hefyd yn ystyried y sylwadau sy'n cael eu cyflwyno ar y Cynllun Adnau sy'n ymwneud â dyraniadau'r safle. Bydd hyn yn cynnwys sylwadau ar gyfer diwygio ffiniau dyraniad, i gynnig dileu safle, neu ar gyfer ychwanegu safleoedd newydd. Pan fo Arolygydd(ion) yn penderfynu y dylid dileu safle o'r CDLl Newydd yna efallai y bydd 'Safle Wrth Gefn' yn cael ei ddewis yn ei le.

8.0.4 Ar ddiwedd gwrandawiadau'r Archwiliad, bydd yr Arolygydd(ion) yn paratoi adroddiad ar 'gadernid' y cynllun a gyflwynwyd. Bydd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r CDLl a'r rheswm dros y newidiadau hyn. Bydd canfyddiadau Adroddiad yr Arolygwyr yn rhwymo'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud y newidiadau a argymhellir. Yna rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu a ddylid derbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLl o fewn wyth wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygwyr.

8.0.5 Dim ond ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu y bydd modd defnyddio'r CDLl Newydd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dyma pryd y bydd Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd ac sydd wedi llwyddo i symud ymlaen drwy'r broses yn cael eu hystyried yn 'safleoedd a ddyrannwyd'.

# Atodiad 1 – Fframwaith Arfaethedig ar gyfer Gwerthuso Safleoedd ACI

## Rhagarweiniad

Mae'r fframwaith arfaethedig i werthuso safleoedd Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) isod yn rhan o asesiad safle ehangach sy'n cynnwys proses hidlo fydd yn eithrio'r safleoedd hynny sy'n methu bodloni'r meini prawf sylfaenol megis risg o lifogydd, problemau gyda phriffyrdd neu lle mae gwrthdaro amlwg o safbwynt asedau bioamrywiaeth. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) Mawrth 2020 yn awgrymu y dylai'r broses fel cyfanwaith alluogi ateb y cwestiynau canlynol:

- Ydy'r safle mewn lleoliad cynaliadwy yn unol â'r drefn chwilio safle a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru 11 (PCC)?
- Ar y cyfan, ydy'r safle'n rhydd rhag cyfyngiadau corfforol, megis perchnogaeth tir, seilwaith, mynediad, cyflwr y ddaear, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, problemau o ran risg o lifogydd a llygredd?
- A fydd yn bosibl cyflawni ar y safle (hynny yw, a yw'n bosibl datblygu'r safle o fewn cyfnod y cynllun, neu fel arall gwneud cynnydd sylweddol)?
- Ydy datblygiad y safle'n hyfyw o safbwynt ariannol? Sef, ydy'r safle'n ddeniadol i'r farchnad (boed yn breifat a/neu sector cyhoeddus), a fydd y safle'n gallu cyflawni'r lefelau cyffredinol o ran tai fforddiadwy, gofynion polisi eraill / Adran 106 a chostau seilwaith a bennir gan yr ACLl ac ar yr un pryd, darparu elw digonol i'r datblygwr / perchennog y tir?

Byddai safleoedd sy'n bodloni'r meini prawf didoli cychwynnol yn destun asesiad yn erbyn fframwaith gwerthuso safleoedd ACI. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y broses o asesu safleoedd ymgeisiol, ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill, yn hysbysu'n uniongyrchol yr ACI ar y safleoedd hynny. Mae'n debyg y caiff safleoedd sy'n perfformio'n isel yn erbyn y fframwaith ACI eu heithrio rhag cael eu hystyried ymhellach.

Defnyddir arfau SGDd i gynnal gwerthusiad o opsiynau safleoedd yn dibynnu ar y nodweddion a'r mesuriadau sydd eu hangen, trwy fesur y pellter mewn llinell syth, o nodwedd i opsiwn safle ac i ba raddau mae'n gorgyffwrdd ag unrhyw nodweddion o fewn opsiwn safle, trwy ddefnyddio mesuriadau a gymerir o ffin agosaf yr opsiwn safle a'r nodwedd dan sylw.

Mae tabl A0 yn nodi'r system sgorio fydd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â meini prawf gwerthuso sy'n benodol i'r gwrthrych, fel yr amlinellir yn Nhablau A1 - A15 isod.

## Tabl A0 System Sgorio wrth Asesu Safle ACI

| Symbol | Sgôr | Disgrifiad | Cam gweithredu |
|---|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol arwyddocaol | Mae'r cynnig yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at wireddu'r amcan. | Dd/B |
| + | Mân effaith gadarnhaol | Mae'r cynnig yn cyfrannu at wireddu'r amcan, ond nid i raddau arwyddocaol. | Ystyried unrhyw fesurau cyfoethogi pellach. |
| 0 | Niwtral/dim effaith | Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar wireddu'r amcan. | Ystyried a fyddai ymyrraeth yn gallu arwain at effaith gadarnhaol. |
| - | Mân effaith negyddol | Mae'r cynnig yn tynnu oddi ar wireddu'r amcan, ond nid i raddau arwyddocaol. | Ystyried mesurau lliniaru priodol a chyfleoedd cyfoethogi. |
| -- | Effaith negyddol arwyddocaol | Mae'r cynnig yn tynnu oddi ar wireddu'r amcan i raddau arwyddocaol. | Asesu dichonolrwydd (o safbwynt ymarferoldeb a chost) mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb yr effaith<br>Os nad yw mesurau lliniaru digonol yn hyfyw, ail-ystyried y cynnig. |
| ? | Effaith ansicr | Mae gan y cynnig gysylltiad ansicr â'r amcan, neu mae'r cysylltiad yn dibynnu ar y ffordd y caiff yr agwedd ei rheoli. Yn ogystal, hwyrach nad oes digon o wybodaeth ar gael i alluogi cyflawni gwerthusiad. | Cynnig awgrymiadau o safbwynt cyflawni.<br>Mae angen gwybodaeth bellach. |

## Fframwaith Arfaethedig ar gyfer Gwerthuso Safleoedd ACI

### ACI Amcan 1 - Darparu cartrefi a seilwaith cymunedol o ansawdd da i fodloni anghenion a nodwyd

**Cwestiynau Gwerthuso'r Safle**

- A oes gan y safle capasiti ar gyfer 5 anheddle?
- Oes cysylltiad corfforol rhwng y lleoliad arfaethedig ac anheddiad sy'n bodoli eisoes, sy'n gallu cael ei wasanaethu gan unrhyw seilwaith angenrheidiol (e.e. trwy uwchraddio)?
- A oes gan y safle/datblygiad arfaethedig y potensial i gyflenwi cyfleusterau i'r gymuned?

**Tabl A1 ACI Amcan 1 Meini Prawf Gwerthuso Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae gan y safle gapasiti (dros 5 anheddle), yn amodol ar yr hierarchaeth anheddiad) i gyflenwi cartrefi newydd, gyda chysylltiadau corfforol da ag anheddiad sy'n bodoli eisoes, a gall cyflenwi cyfleusterau i'r gymuned **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn*)** |
| + | Mae gan y safle gapasiti (dros 5 anheddle), yn amodol ar yr hierarchaeth anheddiad) i gyflenwi cartrefi newydd, gyda chysylltiad da ag anheddiad sy'n bodoli eisoes **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn)** |
| 0 | Gall y safle gyflenwi cartrefi newydd heb unrhyw rinweddau eraill |
| - | Gall y safle gyflenwi cartrefi a gwasanaethau newydd; fodd bynnag, does dim cysylltiad corfforol da ag anheddiad arall sy'n bodoli eisoes **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn)** |
| -- | Nid oes cysylltiad da rhwng y safle ac anheddiad sy'n bodoli eisoes, nid oes gwasanaethau i'w wasanaethu ac ni fyddai'n darparu cyfleusterau i'r gymuned **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn)** |
| ? | Effaith ansicr |

*Gweler tudalen 55 ar gyfer y troednodyn.

## ACI Amcan 2 – Creu a chefnogi economi a gweithlu cadarn, amrywiol a gwydn

**Cwestiynau Gwerthuso'r Safle**

- A fydd y cynnig yn cynnig cyfleusterau cyflogaeth a/neu'n cefnogi anghenion busnesau i ehangu, adleoli, arallgyfeirio ac ati?
- Ydy'r cynigion yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth a/neu'r potensial i uwchsgilio'r gweithlu lleol?

### Tabl A2 ACI Amcan 2 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd y safle'n darparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant fydd o fudd i'r ardal leol, ac yn cyflenwi darpariaeth bresennol |
| + | Bydd y safle'n cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Bydd datblygu'r safle'n arwain at golli tir a ddynodir ar gyfer cyflogaeth |
| -- | Bydd datblygu'r safle'n arwain at golli tir a ddynodir ar gyfer cyflogaeth a busnesau yn yr ardal |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 3 – Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb; trechu allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol

**Cwestiynau Gwerthuso'r Safle**

- A fydd datblygu'r safle hwn yn cynnig cyfle penodol i feithrin cymuned fwy cynaliadwy? (e.e. a yw'n bosibl sicrhau gwelliannau i seilwaith corfforol neu gymdeithasol)
- Ydy Cyngor y Dref/y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig?

**Tabl A3 ACI Amcan 3 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae'r datblygiad yn debygol o arwain at welliant sylweddol o ran darpariaeth o a/neu fynediad at ddarpariaeth cyflogaeth / addysg / gwasanaethau e.e. trwy gyfleusterau cymunedol newydd |
| + | Mae gan y datblygiad botensial i wella darpariaeth o a/neu fynediad at ddarpariaeth cyflogaeth / addysg / gwasanaethau e.e. trwy gyfleusterau cymunedol newydd |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Does dim cyfleoedd i wella darpariaeth o a/neu fynediad at ddarpariaeth cyflogaeth / addysg / gwasanaethau |
| -- | Byddai'r datblygiad yn arwain at golli cyfleusterau cymunedol |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 4 – Diogelu, hyrwyddo a chyfoethogi'r Gymraeg a diwylliant Cymreig

**Cwestiynau'r Gwerthusiad**

- Ydy'r cynnig wedi'i leoli mewn Ardal sy'n Sensitif o Safbwynt Y Gymraeg?
- Oes gan y lleoliad a/neu faint y cynnig botensial i gael effaith niweidiol ar ddefnydd o'r Gymraeg?
- Ydy'r cynnig yn bodloni ystod o fathau gwahanol o dai a deiliadaethau i ddiwallu anghenion lleol, yn benodol darparu tai fforddiadwy a chartrefi arbenigol?
- Ydy'r cynnig yn bodloni gofynion o safbwynt anghenion gwaith lleol?
- Fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol neu yn y gweithle?
- Pa gyfleoedd sy'n deillio o'r cynnig o safbwynt datblygu sgiliau Iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned?
- Ydy'r cynnig yn golygu cyfleuster neu wasanaeth newydd yn y gymuned, neu'n gwella mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes?

**Tabl A4 ACI Amcan 4 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae datblygu'r safle'n golygu cynnwys mesurau priodol i ddiogelu, hyrwyddo a gwella defnydd o'r Gymraeg, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfleuster neu wasanaeth cymunedol newydd neu'n gwella mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol sy'n bodoli eisoes. |
| + | Mae datblygiad o'r safle'n cynnwys mesurau priodol i ddiogelu, hyrwyddo a gwella defnydd o'r Gymraeg. |
| 0 | Nid yw'r safle mewn Ardal sy'n Sensitif o Safbwynt y Gymraeg |
| - | Mae gan y safle gapasiti ar gyfer mwy na 5 anheddle a llai na 25 anheddle, neu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad, byddai arwynebedd llawr yr adeilad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy, a llai na 2,000 metr sgwâr neu byddai'n cynnwys safle gydag ardal o 1 hectar neu fwy a llai na 2 hectar ac sydd o fewn Ardal sy'n Sensitif o Safbwynt y Gymraeg. |
| -- | Mae gan y safle gapasiti ar gyfer 25 anheddle neu fwy, neu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad, byddai gan yr adeilad arwynebedd llawr o 2,000 metr sgwar neu fwy, neu byddai'n rhan o safle o fewn ardal o 2 hectar neu fwy, ac o fewn Ardal sy'n Sensitif o Safbwynt y Gymraeg |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 5 – Gwella iechyd a llesiant pob sector o gymdeithas

**Cwestiynau Gwerthuso'r Safle**

- Ydy'r safle mewn lleoliad sy'n annog iechyd a llesiant, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd, gweithgareddau corfforol, teithio llesol, lleoedd gwyrdd naturiol hygyrch a rhyngweithio ac ymgysylltiad â'r gymuned?
- Gall y safle cyfrannu at ddarparu cyfleusterau a lleoedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant?

### Tabl A5 ACI Amcan 5 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd datblygu'r safle yn arwain at uwchraddio a/neu ddarparu cyfleusterau gofal iechyd, cyfleusterau chwaraeon, llwybr teithio llesol, a mannau gwyrdd naturiol  neu led-naturiol hygyrch |
| + | Mae'r safle o fewn 1,000 metr o gyfleuster gofal iechyd a chyfleuster chwaraeon (**gweler meini prawf hygyrchedd dangosol yn y troednodyn**) ac mae o fewn 720 metr o fan gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch (yn ôl Safonau *Fields in Trust*).<br>neu<br>Mae'r  safle o fewn pellter cerdded (800 metr) o drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybr teithio llesol sy'n cysylltu â'r cyfleusterau neu'r gofodau hyn. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi wrth yr amcan. |
| - | Heb ei ddefnyddio |
| -- | Nid oes mynediad ar gael i gyfleusterau gofal iechyd, cyfleusterau chwaraeon a mannau gwyrdd naturiol neu led-naturiol hygyrch trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol. |
| ? | Effaith ansicr |

*Gweler tudalen 55 ar gyfer y troednodyn.

## ACI Amcan 6 – Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd eisoes ac adeiladau presennol a diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Fydd datblygu'r safle hwn yn osgoi colli tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (GMA)?
- A fydd y safle'n defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol lle mae'n addas ar gyfer ei ddatblygu?

**Tabl A6 ACI Amcan 6 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Safle tir a ddatblygwyd yn gyfan gwbl yn flaenorol yw hwn, ac o fewn neu ar ymyl anheddiad sy'n bodoli eisoes |
| + | Safle tir a ddatblygwyd yn rhannol yn flaenorol yw hwn o fewn neu ar ymyl anheddiad (> 50%) ac sy'n cynnwys tir amaethyddol gradd isel (Graddfa 3b, 4 a 5) |
| 0 | Safle tir glas rhannol yw hwn (> 50%) ac sy'n cynnwys tir amaethyddol gradd isel (Graddfa 3b, 4 a 5) |
| - | Safle tir glas rhannol yw hwn (> 50%) gyda thir amaethyddol gradd uchel (Graddfa 1, 2 a 3a) |
| -- | Safle tir glas yn gyfan gwbl yw hwn, sy'n cynnwys tir amaethyddol gradd uchel (Graddfa 1, 2 a 3a) |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 7 – Gwarchod, diogelu a gwella ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Oes disgwyl y gellir datblygu'r safle heb effaith niweidiol ar ansawdd dŵr neu adnoddau dŵr?

### Tabl A7 ACI Amcan 7 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Heb ei ddefnyddio |
| + | Gall y cynnig gyfrannu at ddiogelu a chyfoethogi ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, e.e. trwy ymgorffori mesurau oddi ar y safle |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Gall y cynnig gael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr e.e. trwy'r potensial ar gyfer gollyngiadau, neu adnoddau dŵr |
| -- | Heb ei ddefnyddio |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 8 – Lleihau cymaint â phosibl neu leihau ffynonellau ac effaith llygredd aer

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Fydd y cynigion datblygu'n annog siwrneiau drwy ddull cynaliadwy (teithio llesol a/neu gludiant cyhoeddus) yn unol â'r hierarchaeth teithio cenedlaethol?
- Fydd gan y cynigion datblygu risg annerbynniol o niwed o lygredd aer i iechyd dynol neu'r amgylchedd naturiol?

**Tabl A8 ACI Amcan 8 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Heb ei ddefnyddio |
| + | Byddai datblygiad o'r safle yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo teithio cynaliadwy a gwireddu'r hierarchaeth teithio cenedlaethol.<br>Ni fydd y cynnig datblygu'n arwain at unrhyw gynnydd mewn lefel llygredd aer. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Ni fydd datblygu'r safle yn cyfrannu tuag at wireddu'r hierarchaeth teithio cenedlaethol |
| -- | Bydd gan y cynnig datblygu risg annerbynniol o niwed i iechyd dynol neu'r amgylchedd naturiol. |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 9 – Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, annog ail-ddefnyddio ac ailgylchu, a hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau mwynau

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

Ni fu'n bosibl adnabod meini prawf penodol o ran lefel y safle ar gyfer yr Amcan ACI yma.

**Tabl A9 ACI Amcan 9 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Heb ei ddefnyddio |
| + | Heb ei ddefnyddio |
| 0 | Ystyrir fod hyn yn niwtral ar draws prosiectau, oherwydd gall pob prosiect gyfrannu at yr amcan hwn i raddau trwy ddyluniad a rheoli gwastraff. |
| - | Heb ei ddefnyddio |
| -- | Heb ei ddefnyddio |
| ? | Heb ei ddefnyddio |

## ACI Amcan 10 – Cefnogi gwydnwch Powys o ran effaith botensial newid hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a digwyddiadau eithriadol eraill

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Ydy'r safle'n rhydd rhag risg o lifogydd, neu a brofwyd y gellir rheoli unrhyw risg o lifogydd mewn ffordd dderbyniol?
- A fydd y datblygiad o'r safle yn gwella ac yn ymestyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi addasiadau newid yn yr hinsawdd?

**Tabl A10 ACI Amcan 10 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Heb ei ddefnyddio |
| + | Nid yw'r safle mewn ardal a ddynodwyd i fod mewn perygl o lifogydd o afon neu'r arfordirol ar Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio<br>Byddai'r safle'n gwella ac yn ymestyn rhwydweithiau seilwaith gwyrdd i gefnogi addasiadau newid yn yr hinsawdd |
| 0 | Heb ei ddefnyddio |
| - | Mae'r safle ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed o fewn Ardal a Amddiffynnir a/neu Parth 2, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ac fe'i cefnogir gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n dangos bod canlyniadau posibl o lifogydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn unol â'r meini prawf o fewn adran 11 TAN15 (2021). |
| -- | Cynigir y safle ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed o fewn Parth 3, neu mae mewn Ardal a Amddiffynnir neu Barth 2, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol ond nid yw wedi'i gefnogi gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd sy'n dangos cytundeb gyda'r meini prawf yn adran 11 TAN 15 (2021) |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 11 - Lleihau'r cyfraniad at newid hinsawdd oherwydd allyriadau nwyon tŷ gwydr

### Cwestiwn Gwerthuso'r Safle

- Ydy'r safle'n darparu cyfle ar gyfer lleihau ynni/ynni adnewyddadwy

**Tabl A11 ACI Amcan 11 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Byddai datblygu'r safle'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a/neu'n hyrwyddo mesurau cynaliadwyedd ehangach, e.e. trwy allforio ynni a gynhyrchir i'r grid. |
| + | Byddai datblygu'r safle'n cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy a/neu fesurau cynaliadwyedd ehangach |
| 0 | Ni fyddai'r cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Heb ei ddefnyddio |
| -- | Heb ei ddefnyddio |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 12 - Hyrwyddo defnydd o gludiant cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Ydy lleoliad y safle yn annog newid i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy (e.e. a yw'n ganolog ac yn hygyrch i wasanaethau lleol a/neu'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus heb rwystrau corfforol o safbwynt mynediad diogel trwy gerdded neu feicio)?

**Tabl A12 ACI Amcan 12 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae gan y safle fynediad rhagorol (<800m) at gludiant cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a llwybr teithio llesol **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol y troednodyn)** |
| + | Mae'r safle o fewn pellter cerdded (800m) i gludiant cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a llwybr teithio llesol **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol y troednodyn)** |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Nid yw'r safle o fewn pellter cerdded at gludiant cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a llwybr teithio llesol **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol y troednodyn)** |
| -- | Mae'r safle >800m o gludiant cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a llwybr teithio llesol **(yn ôl yr hierarchaeth anheddiad a meini prawf hygyrchedd dangosol y troednodyn)** |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 13 – Gwarchod a chyfoethogi adnoddau treftadaeth Powys, gan gynnwys asedau adeiledig ac archeolegol

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- Ydy'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant, hynodrwydd lleol a'r naws am le, gan gynnwys gwarchod asedau hanesyddol a'u lleoliad.

**Tabl A13 ACI Amcan 13 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Bydd datblygu'r safle'n arwain at warchod a chyfoethogi asedau hanesyddol, e.e. trwy ddarparu defnydd buddiol ar gyfer ased sy'n bodoli |
| + | Mae potensial i ddatblygu'r safle gyfoethogi ased hanesyddol, e.e. trwy ei leoliad |
| 0 | Ni fydd datblygu'r safle yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Mae'r safle'n cynnwys neu mae o fewn lleoliad ased hanesyddol o bwysigrwydd lleol / rhanbarthol (gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth ac asedau heb eu dynodi) ac mae'n debygol o effeithio ar arwyddocad yr ased. |
| -- | Mae'r safle'n cynnwys ased hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol (Graddfa I, II* ac II, adeiladau rhestredig graddfa I, II* ac II, a pharciau a gerddi cofrestredig neu henebion cofrestredig) ac mae'n debygol o effeithio ar arwyddocad yr ased. |
| ? | Nid yw'r effeithiau ar leoliad asedau hanesyddol yn sicr. |

## ACI Amcan 14 - Gwarchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a hyrwyddo gwelliannau i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlddefnydd

**Cwestiynau Gwerthuso'r Safle**

- Ydy'r safle'n rhydd rhag cyfyngiadau / sensitifrwydd amgylcheddol megis cynefinoedd a rhywogaethau bregus, neu'n agos at y rhain?
- Oes cyfleoedd penodol ar gyfer buddion ecolegol neu o ran bioamrywiaeth neu gwelliannau geoamrywiaeth ar y safle hwn (e.e. potensial i greu mannau gwyrdd, coridorau cynefinoedd ac ati, neu botensial i wella ansawdd dŵr, aer neu bridd?)

**Tabl A14 ACI Amcan 14 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Heb ei ddefnyddio |
| + | Mae'r safle'n rhydd rhag cyfyngiadau bioamrywiaeth / geoamrywiaeth a bydd yn cyfrannu at gyfoethogi bioamrywiaeth / geoamrywiaeth ar y safle ac yn yr ardal gyfagos |
| 0 | Heb ei ddefnyddio. |
| - | Mae gan y safle y potensial i gael effaith andwyol ar safleoedd dynodedig yn lleol neu'n rhanbarthol (RIGS, Gwarchodfa Natur Leol a SINC) a/neu gynefinoedd/rhywogaethau blaenoriaeth. |
| -- | Mae'r safle'n debygol o gael effaith ar safle dynodedig neu rywogaeth wedi'i ddiogelu'n rhyngwladol (ACA, AGA, Ramsar) neu genedlaethol (SODdGA, Coetir Hynafol). |
| ? | Effaith ansicr |

## ACI Amcan 15 – Diogelu ansawdd ac amrywiaeth tirluniau a threfluniau dynodedig a lleol

**Cwestiwn Gwerthuso'r Safle**

- A yw datblygiad y safle yn debygol o effeithio ar ddibenion neu leoliad tirluniau dynodedig h.y. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol?
- A yw'n bosibl cynnwys y cynigion datblygu yn y dirwedd a'r amgylchedd lleol mewn ffordd sympathetig heb niweidio cymeriad a naws yr ardal? (yn enwedig wrth ystyried safle i'w ddatblygu ar dir glas a/neu ar ymyl anheddiad lle bydd y datblygiad yn ymestyn i gefn gwlad agored).

**Tabl A15 ACI Amcan 15 Meini Prawf Gwerthuso'r Safle**

| Sgôr | Meini Prawf |
|---|---|
| ++ | Mae datblygu'r safle yn diogelu'r tirlun lleol / cymeriad yr anheddiad ac mae potensial i'w gyfoethogi, yn unol â meini prawf LANDMAP ac Asesiad Cymeriad Tirlun Lleol Powys. |
| + | Mae datblygu'r safle yn diogelu tirwedd / cymeriad yr anheddiad yn unol â meini prawf LANDMAP ac Asesiad Cymeriad Tirlun Lleol Powys.<br>Ni fydd datblygu'r safle yn debygol o gael effaith ar ddiben a lleoliad tirluniau dynodedig. |
| 0 | Ni fydd y cynnig yn cyfrannu at, nac yn tynnu oddi ar, yr amcan |
| - | Byddai datblygu'r safle'n peryglu'r dirwedd/cymeriad yr anheddiad lleol yn unol â meini prawf LANDMAP ac Asesiad Cymeriad Tirlun Lleol Powys. |
| -- | Mae'r safle wedi'i leoli o fewn 2,000m ar gyfer preswyl, neu 10,000m ar gyfer diwydiannol neu gynhyrchu a dosbarthu ynni o ffin Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a bydd datblygiad o'r safle yn debygol o gael effaith ar ddiben neu leoliad y tirluniau dynodedig hyn |
| ? | Effaith ansicr |

## Troednodyn: Meini Prawf Hygyrchedd Dangosol

| Cyfleusterau | Safonau Hygyrchedd Rhesymol (Uchafswm) |
|---|---|
| Ysgol Gynradd | 600 metr |
| Ysgol Uwchradd | 2000 metr |
| Gwasanaethau Iechyd | 1000 metr |
| Cludiant Cyhoeddus | 800 metr |
| Meysydd Chwaraeon / Caeau Chwarae / Canolfannau Hamdden | 1000 metr |
| Siopau - siopau sy'n gwerthu nwyddau sylfaenol i fodloni anghenion dyddiol (tref, canolfannau lleol / bro) | 1000 metr - 2000 metr |
| Gwaith - y pellter i safleoedd / dyraniadau gwaith lleol presennol | Hyd at 5000 metr |

Addasiad o Sustainable Settlements: A Guide for Planners, Designers and Developers (Barton, Davis and Guise, 1995) a Shaping Neighbourhoods - for local health and global sustainability (2010)